# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Rhif 17 (Rhifyn arbennig: 'Trwy ddulliau chwyldro...') • Mawrth 2014 • ISSN 1741-4261

Cyhoeddwyd gyda chymorth: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

Rhif 17 Mawrth 2014 • ISSN 1741-4261

# Bwrdd Golygyddol


| | |
|---|---|
| Golygydd: | Yr Athro Ioan M. Williams |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Dr Gwenllian Lansdown Davies,<br>Dr Angharad Watkins a Dr Meilyr Emrys |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Dr John S. Davies<br>Dr Noel A. Davies<br>Dr Myfanwy Davies, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Siwan Davies, Prifysgol Abertawe<br>Dr Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Carwyn Jones, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth<br>Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor<br>Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru<br>Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor<br>Mr Wyn Thomas, Prifysgol Bangor<br>Dr Daniel G. Williams, Prifysgol Abertawe |


e-Gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org


Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: *Gwerddon*, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Llawr B, Adeilad Hugh Owen, Aberystwyth, Ceredigion.



ISSN 1741-4261



Hawlfraint *Gwerddon*


www.gwerddon.org

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Golygyddol | 5 |
| Rhagair | 6 |
| Crynodebau | 10 |
| Summaries | 11 |
| Erthygl 1: Yr Athro Gerwyn Wiliams, 'Cynan, Y Sefydliad a Chwyldro'r 1960au' | 12 |
| Erthygl 2: Dr Rowan O'Neill, 'Heddwch Salem? Astudiaeth o bortread Cliff McLucas o Cynog Dafis' | 23 |
| Erthygl 3: Sel Williams, 'Cloriannu Cymdeithasiaeth: Syniadaeth wleidyddol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg' | 41 |
| Cyfranwyr | 58 |

# Golygyddol

Rhifyn arbennig yw hwn; y mae ei gynnwys yn tarddu o gynhadledd amlddisgyblaethol a gynhaliwyd ym Mangor ym mis Tachwedd 2012. Teitl y gynhadledd oedd ``Trwy Ddulliau Chwyldro': Hanner can mlynedd o ymgyrch yr iaith', a rhaid diolch i Dr Huw Lewis am gydlynu'r tair erthygl a geir yma, sy'n ymdrin ag agweddau ar briodoleddau diwylliant a hunaniaeth Gymraeg yn y byd sydd ohoni.

Gellid dweud bod yr Athro Gerwyn Wiliams yn trin ei bwnc mewn ffordd fwy traddodiadol na'r ddau awdur arall. Y mae'n trafod y gwrthgyferbyniad rhwng dwy ffordd o feddwl am Gymreictod; y naill wedi ei ymgorffori ym mherson y Sensor a'r Archdderwydd, Cynan, a'r llall yn Dafydd Iwan, cynrychiolydd y genhedlaeth ifanc a wrthryfelodd yn y 1960au yn erbyn 'Cymreictod cydymffurfiol, cymedrol a chytûn'. Prif hanfod erthygl Sel Williams yw trafodaeth ar 'gymdeithasiaeth', sef agwedd mwy diweddar ar yr ymgyrch a symbylwyd gan ddarlith dyngedfennol Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith' (1962). Dyma ideoleg amddiffynnol a ddatblygwyd yn nhrafodaethau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn sgil yr ymdrech i gyfuno egwyddorion gwleidyddol ac economaidd sosialaeth â pharch tuag at y strwythurau diwylliannol a ymgorfforwyd yn y cymunedau Cymraeg, ac yn anad dim, tuag at yr iaith. Y mae erthygl Dr Rowan O'Neill hithau'n ymroi i ddiffinio ac amddiffyn yr hunaniaeth neu hunaniaethau Cymreig, er bod ei safbwynt yn dra gwahanol. Edrycha O'Neill ar sefyllfa'r iaith a chyflwr y cymunedau Cymraeg drwy lygaid y mewnfudwr a'r artist, Cliff McLucas, y mae archif ei waith creadigol yn y Llyfrgell Genedlaethol.

O ystyried yr erthyglau yn eu crynswth, diddorol yw gweld yr un ymwybod problemus yn ymffurfio, a hynny'n ymwneud – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – â'r gwrthdaro rhwng Cymreictod a'r elfennau o Brydeindod a geir oddi mewn i bob un ohonom.

Cyd-ddigwyddiad yw cael tair erthygl sy'n hanu o'r un ymwybod problemus, ond beth a gawn yma yw'r un cymhlethdod sylfaenol y mae bodolaeth Gwerddon yn ymateb iddo. Sefydliad Prydeinig yw'r sector addysg uwch yng Nghymru, nad yw erioed wedi caniatáu mwy na safle ymylol i anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg. Ni fu erioed yn hawdd i academydd o Gymro neu Gymraes greu gofod o fewn y sector lle medr ymroi'n gyfan gwbl i weithio fel academydd drwy ei b/phriod iaith. Dyna, wrth gwrs, yw'r cyfnodolyn hwn – gwerddon yng nghanol anialwch go sych o safbwynt y Cymro!

Yr Athro Ioan Williams

# Rhagair y golygydd gwadd

Heb os, roedd yr 1960au cynnar yn gyfnod pwysig iawn yn hanes yr iaith Gymraeg, ac yn fwy penodol, yn hanes yr ymdrechion i'w chynnal ac i ehangu ei pheuoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd cychwyn ar gyfnod o ymgyrchu llawer mwy heriol a phenderfynol nag a welwyd cynt, ac yn sgil hynny, bu i ddyfodol yr iaith droi'n bwnc a hawliai le llawer amlycach ar yr agenda gwleidyddol.[1] Bellach, caiff dau ddigwyddiad cysylltiedig eu trin fel cerrig milltir hanesyddol sy'n cynrychioli'r 'newid gêr' arwyddocaol hwn. Y gyntaf, wrth gwrs, yw darlith radio heriol ac ysbrydoledig Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith', a draddodwyd ym mis Chwefror 1962. Yr ail yw'r penderfyniad a wnaed rai misoedd yn ddiweddarach i sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mudiad a fyddai'n arddel dulliau ymgyrchu uniongyrchol a di-drais, fel y gwnaed mewn modd mor gofiadwy ar achlysur ei gwrthdystiad cyntaf yn Aberystwyth ym mis Chwefror 1963.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, trefnwyd amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau ledled Cymru er mwyn nodi hanner canrif ers dechrau'r datblygiadau hyn, a hefyd er mwyn cloriannu cyfraniad yr ymgyrchu sylweddol a ddaeth yn eu sgil. Trefnwyd ralïau, dadorchuddiwyd placiau, llwyfannwyd dramâu, cyhoeddwyd erthyglau a llyfrau, darlledwyd rhaglenni radio a theledu, ac aed ati i drefnu ambell gyngerdd bop gofiadwy. Yn ogystal, yng nghanol y cyfnod hwn o weithgarwch, cynhaliwyd cynhadledd academaidd lwyddiannus ym Mangor ym mis Tachwedd 2013.

Bwriad y gynhadledd, ''Trwy ddulliau chwyldro': Hanner can mlynedd o ymgyrch yr iaith', oedd cynnig cyfle i ysgolheigion o sawl maes disgyblaethol ddod ynghyd er mwyn cloriannu dylanwad ymgyrchu'r degawdau diwethaf ar fywyd gwleidyddol a diwylliannol Cymru. Trefnwyd y gynhadledd ar y cyd gan Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth, ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, a thros ddeuddydd cyflwynwyd dwsin o bapurau academaidd a thraddodwyd dwy ddarlith wadd, y gyntaf gan yr Athro Jane Aaron a'r ail gan Ned Thomas.[2]

O ran casgliadau, un o'r prif bethau a sefydlwyd yn glir yn ystod y gynhadledd oedd bod ymdrin yn deg ag arwyddocâd yr ymgyrchu ers y 1960au cynnar yn galw am werthfawrogiad o natur eang ac amlweddog ei sgil effeithiau. Fel y dangosodd nifer o'r papurau a drafodwyd, bu i'r ymgyrchu hyn ddylanwadu ar fywyd Cymru mewn ystod o wahanol ffyrdd, weithiau mewn modd amlwg ac uniongyrchol, ond ar adegau eraill mewn modd mwy anuniongyrchol ac annisgwyl.

---

1 Dylid pwysleisio nad datblygiad cwbl newydd oedd yr awydd hwn i ymgyrchu er mwyn hybu rhagolygon y Gymraeg. Yn hytrach, roedd yn adeiladu ar weithgaredd a fu ar droed ers degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, trwy waith cyrff megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (h.y. yr un wreiddiol a sefydlwyd ym 1885 gan Dan Isaac Davies), Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymreig ac Undeb Cymru Fydd. Fodd bynnag, teg yw casglu, fel y gwna Phillips (1997: tt. 134-6), bod dwyster ychwanegol yn perthyn i'r don o ymgyrchu a gododd yn ystod y 1960au, ac yn sgil hynny, priodol yw meddwl am y cyfnod fel un lle gwelwyd cychwyn ar 'bennod newydd' yn hanes y mudiad iaith. Am drafodaeth ar weithgaredd y mudiad iaith yn ystod cyfnodau cynharach, gweler gwaith Löffler (1995 a 2000).

2 Testun darlith Yr Athro Jane Aaron oedd 'Yr Ymgyrch Ffuglennol: Cymdeithas yr Iaith a'r Nofel Gymraeg' a thestun darlith Ned Thomas oedd 'Problemau Llwyddiant: Democratiaeth Gymreig a'r Gymuned Gymraeg'.

Ymhlith y canlyniadau mwyaf amlwg y mae'r modd y daeth y Gymraeg i hawlio lle mwyfwy pwysig ym mywyd cyhoeddus y wlad. Trawsnewidiwyd ei statws gan gyfres o ddeddfau iaith a arweiniodd at godi arwyddion, cynhyrchu ffurflenni, ac at ddatgan yn glir y dylai Cymru gael ei hystyried fel gwlad ddwyieithog. Ochr yn ochr â hyn, gwelwyd ehangu sylweddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg, a bu i'r niferoedd a fanteisiai ar y ddarpariaeth honno dyfu y tu hwnt i bob disgwyl. Ymhellach, sicrhawyd lle amlycach i'r Gymraeg ym myd y cyfryngau, gyda sefydlu S4C yn garreg filltir tra phwysig.[3] Wrth gwrs, er gwaethaf datblygiadau o'r fath, erys pryderon difrifol iawn ynglŷn â rhagolygon hir dymor yr iaith, a byddai nifer (a minnau yn eu plith) am ddadlau'n gryf y gellid gwneud llawer iawn mwy er mwyn gwella'r rhagolygon hyn. Eto i gyd, ni ellir gwadu pa mor bellgyrhaeddol y bu'r newid yn nhirwedd ieithyddol Cymru ers dechrau'r 1960au. Ymhellach, heblaw am ymgyrchu penderfynol ac aberth cynifer o Gymry, go brin y buasai sefyllfa'r iaith wedi newid i'r fath raddau.

Fodd bynnag, nid trwy ystyried enillion penodol a mesuradwy tebyg i'r uchod yn unig y mae cloriannu arwyddocâd ymgyrchu'r degawdau diwethaf. Mae'n angenrheidiol cydnabod i'r ymgyrchu hwn hefyd gyfrannu at hybu newidiadau pwysig mewn agweddau tuag at y Gymraeg.

Yn ôl ar ddechrau'r 1960au, y dybiaeth gyffredin oedd bod dirywiad y Gymraeg yn rhan anochel o'r drefn fodern ac na ellid gwneud dim ymarferol i atal a gwrthdroi'r duedd hon. Yn sicr, roedd unrhyw awgrym y gallai'r wladwriaeth wneud cyfraniad allweddol at sefyllfa'r iaith Gymraeg y tu hwnt i bob amgyffred. Cafodd y byd-olwg gwangalon ac anwleidyddol hwn ei herio mewn modd cwbl agored gan Saunders Lewis yn 'Tynged yr Iaith', ac yna'i danseilio'n sylweddol gan yr ymgyrchu penderfynol a gododd yn ei sgil. Dros amser, arweiniodd hyn at esgor ar feddylfryd newydd ymysg nifer helaeth o Gymry, a dybiai y gallai'r Gymraeg – o sicrhau iddi amgylchiadau ffafriol – oroesi a ffynnu.

Ymhellach, y duedd ar ddechrau'r 1960au oedd ystyried y Gymraeg fel cyfrwng cyntefig, israddol, a berthynai'n unig i lond dwrn o beuoedd cymdeithasol ymylol; iaith 'cegin a chapel' yn ôl Richard Wyn Jones (Jones, 2001: 108). Ni feddai ar yr adnoddau i fod yn gyfrwng naturiol mewn meysydd pwysig megis masnach, cyfraith, gwleidyddiaeth ac, yn arwyddocaol o safbwynt yr ifanc, adloniant cyfoes. Dyma elfen arall o fyd-olwg hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif a heriwyd ac a danseiliwyd yn sgil gweithgaredd y mudiad iaith modern. Drwy'r ymgyrchu, ond hefyd drwy'r holl weithgaredd arall a gododd o'i amgylch, daeth nifer helaeth o Gymry i weld nad oedd i'r Saesneg unrhyw ragoriaethau cynhenid, ac felly ei bod yn gwbl ddilys bwrw iddi ag arddeliad i 'wneud popeth yn Gymraeg'. O bosib, un o ganlyniadau mwyaf diddorol yr ymchwydd hwn mewn hyder oedd datblygiad y sîn roc a phop Gymraeg. Yn wir, fel yr awgrymodd Richard Wyn Jones, dyma ddatblygiad 'a fu bron yn unigryw ymhlith cenhedloedd di-wladwriaeth Ewrop yn ystod y degawdau diwethaf'. At hynny, mae'r ffaith iddo ffynnu i'r fath raddau 'o dan gesail diwylliant Anglo-Americanaidd sydd wedi profi mor ddeniadol a deinamig ledled y byd' ond yn ychwanegu at ryfeddod y gamp (Jones, 2001: 108).

Elfen arall y dylid ei hystyried wrth gloriannu arwyddocâd ymgyrchu iaith y pum degawd diwethaf yw'r modd y bu'n sbardun pwysig i weithgaredd nad oedd, ar yr wyneb o leiaf,

[3] Am drafodaeth fanwl o'r datblygiadau a welwyd mewn perthynas â statws cyfreithiol y Gymraeg, gweler Davies (2000). Am wybodaeth bellach am y twf mewn addysg Gymraeg, gweler nifer o benodau yn Williams (2002). Ceir trosolwg o ddatblygiadau yn y maes darlledu yn Smith (2000).

yn ymwneud â pholisi iaith. I ddechrau, gwelwyd sefydlu ystod o fentrau masnachol a feddai ar hunaniaeth Gymraeg amlwg. Ymhlith y cyntaf oedd y wasg arloesol, Y Lolfa, y label recordiau, Sain, ynghyd â'r amryfal siopau Cymraeg (e.e. Siop y Pethe yn Aberystwyth). Yn ystod y blynyddoedd canlynol, fe'u dilynwyd gan restr hir o fentrau eraill. Ar yr un pryd, bu'r ymgyrchu ieithyddol a'r trafodaethau amrywiol a gododd yn ei sgil yn ysgogiad i waith creadigol o bob math. Gwelir ei ddylanwad ar nofelau gan awduron megis Angharad Tomos (1985), Gareth Miles (1989), a Grahame Davies (2004), ynghyd ag ar ystod o gerddi cyfoes (e.e., gweler Griffiths, 2013). At hynny, ychwaneger cynnyrch cerddorion amrywiol megis Dafydd Iwan, Geraint Jarman, Steve Eaves, a David Edwards (e.e. gweler Schiavone, 1996; Wyn, 2002 a 2006).

Diau y gellid cyfeirio at amryw o ganlyniadau arwyddocaol pellach. Fodd bynnag, tystia'r uchod i'r modd amlweddog y bu i ymgyrchu'r degawdau diwethaf adael ei farc ar sawl agwedd ar fywyd Cymru. Yn wir, wrth ystyried ei amrywiol ganlyniadau, rhaid yw cytuno â dyfarniad Gerwyn Wiliams yn y rhifyn hwn, sef bod yr holl ymgyrchu, o'i gloriannu'n llawn, wedi bod 'ynglŷn â llawer mwy na'r iaith'.

Bwriad y rhifyn arbennig hwn o *Gwerddon* yw rhoi blas o'r gwahanol bapurau a gyflwynwyd yn ystod y gynhadledd ym Mangor. Ceir yma dri darn, ac o ran eu cynnwys, maent yn sicr yn ategu'r ddadl a gyflwynwyd uchod ynglŷn â natur eang ac amlweddog effeithiau ymgyrchu iaith y degawdau diwethaf. Yn erthygl Gerwyn Wiliams, eir ati i drafod y tensiynau a gododd yn ystod y 1960au rhwng ymgyrchwyr ifanc Cymdeithas yr Iaith a ffigyrau blaenllaw'r sefydliad Cymreig, gyda Cynan yn amlwg yn eu plith. Wrth wneud hyn, dengys sut y bu i'r mudiad iaith newydd, trwy ei rethreg a'i weithgaredd, roi mynegiant i fath newydd o Gymreictod – Cymreictod llai cydymffurfiol a chymedrol nag a welwyd cynt. Portread o Cynog Dafis, a luniwyd yn ystod yr 1980au gan yr artist Cliff McLucas, yw'r man cychwyn ar gyfer erthygl Rowan O'Neill. Fe'i defnyddia fel sail i ddatblygu trafodaeth ddiddorol sy'n archwilio gwahanol safbwyntiau ar y mewnlifiad Saesneg i orllewin Cymru, ynghyd ag ymdrin â'r modd priodol i ymateb i'r heriau ieithyddol a gwyd yn ei sgil. Yn olaf, yn erthygl Sel Williams, ceir ymdriniaeth â'r lle canolog yr hawliodd y cysyniad o gymuned o fewn trafodaethau gwleidyddol Cymreig, yn enwedig o fewn trafodaethau'r mudiad iaith. Fel rhan o hyn, ymdrinnir â'r syniad o 'gymdeithasiaeth' a fu, yn ôl yr awdur, yn gonglfaen i'r athroniaeth wleidyddol a ddatblygwyd gan Gymdeithas yr Iaith.

I gloi, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i amryw o bobl a fu o gymorth mawr naill ai wrth drefnu'r gynhadledd neu wrth gynhyrchu'r rhifyn hwn. Yn achos y gynhadledd, rhaid, wrth reswm, ddiolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiad ac a gyflwynodd bapurau. Y tu hwnt i hynny, hoffwn ddiolch yn fawr i Dr Menna Machreth, yr Athro Peredur Lynch a Gwenan Creunant am eu holl gymorth a'u gwaith cynllunio. Diolch hefyd i Dr Rhys Llwyd am ei gymorth wrth ddylunio'r deunydd hysbysebu. Yn ogystal, hoffwn gydnabod y gefnogaeth ariannol hael a dderbyniwyd o gyfeiriad Cronfa Grantiau Bach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn achos y rhifyn, carwn ddiolch i'r Golygydd, Yr Athro Ioan Williams, am ei gefnogaeth i'r prosiect. Diolch hefyd i Dr Meilyr Emrys a Dr Gwenllian Lansdown Davies, y ddau gynorthwy-ydd golygyddol, am lywio'r gwaith yn hwylus, ac i Dr Angharad Watkins am ei gwaith golygu manwl. Yn olaf, rhaid yw diolch i'r tri awdur – Gerwyn, Rowan a Sel – am eu gwaith perthnasol a diddorol dros ben.

Dr Huw Lewis<br>Mawrth 2014

**LLYFRYDDIAETH**

Davies, Grahame (2004), *Rhaid i Bopeth Newid* (Llandysul: Gomer).

Davies, G. P. (2000), 'Statws Cyfreithiol yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif', yn Jenkins, Geraint H., a Williams, Mari A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 207-38.

Griffiths, Hywel (gol.) (2013), *Byw Brwydr: Detholiad o Ganu Gwleidyddol 1979-2013* (Y Bala: Cyhoeddiadau Barddas).

Jones, Richard Wyn (2001), 'Ysgrifennu Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg', *Taliesin,* 112, Haf, 107-24.

Löffler, Marion (1995), *Iaith Nas Arferir, Iaith i Farw Yw: Ymgyrchu Dros Yr Iaith Gymraeg Rhwng y Ddau Ryfel Byd* (Aberystwyth: Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd).

Löffler, Marion (2000), 'Mudiad yr Iaith Gymraeg yn Hanner Cyntaf yr Ugeinfed Ganrif: Cyfraniad y Chwyldroadau Tawel', yn Jenkins, Geraint H., a Williams, Mari A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 173-206.

Miles, Gareth (1985), *Trefaelog* (Caernarfon: Annwn).

Phillips, Dylan (1998), *Trwy ddulliau chwyldro…? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1992* (Llandysul: Gomer).

Schiavone, Toni (1996), 'Roc'n Gwleidyddiaeth', *Tu Chwith,* 5, Haf, 44-5.

Thomas, Angharad (1985), *Yma o Hyd* (Talybont: Y Lolfa).

Williams, Iolo Wyn (gol.) (2002), *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000* (Talybont: Y Lolfa).

Wyn, Hefin (2002), *Be Bop a Lula'r Delyn Aur: Hanes Cynnar Canu Poblogaidd Cymraeg* (Talybont: Y Lolfa).

Wyn, Hefin (2006), *Ble Wyt ti Rhwng? Hanes Canu Poblogaidd Cymraeg 1980-2000* (Talybont: Y Lolfa).

# Crynodebau

## Yr Athro Gerwyn Wiliams, 'Cynan, Y Sefydliad a Chwyldro'r 1960au'

Cynan (Albert Evans-Jones, 1895-1970) oedd un o brif gynrychiolwyr Y Sefydliad yng Nghymru am ran helaeth o'r ugeinfed ganrif. Bu'n Archdderwydd ddwywaith a chwaraeodd ran ganolog ym mhenderfyniad dadleuol yr Orsedd i gymryd rhan yn seremoni Arwisgo'r Tywysog Siarl yng nghastell Caernarfon ar 1 Gorffennaf 1969. Ef hefyd oedd un o awduron Rheol Iaith yr Eisteddfod Genedlaethol, rheol y daliodd yn gryf o'i phlaid fel Llywydd Llys yr Eisteddfod tuag at ddiwedd ei oes. O gymharu, Dafydd Iwan oedd un o arweinwyr amlycaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mudiad a fabwysiadodd 'ddulliau chwyldro' yn ystod y 1960au. Yn yr erthygl hon, ystyrir y gwrthdaro rhwng Cynan a Dafydd Iwan a'r modd y cynrychiolai'r gwrthdaro hwnnw ymrafael ynghylch yr union ddiffiniad o Gymreictod ar y pryd.

## Dr Rowan O'Neill, 'Heddwch Salem? Astudiaeth o bortread Cliff McLucas o Cynog Dafis'

Ym 1987, gweithiai'r artist a chyfarwyddwr theatr, Cliff McLucas, fel artist preswyl yn Ysgol Gyfun Ddwyieithog Dyffryn Teifi ar brosiect o'r enw 'Preswyliad Cyfryngau Dyfed'. Fel rhan o'i waith yn yr ysgol, creodd gyfres o bortreadau o'r athrawon gan ddefnyddio techneg gludwaith ffotograffiaeth. Yn rhan o'r gyfres hon o luniau, ceir llun o athro Saesneg yr ysgol ar y pryd; y gwleidydd a'r ymgyrchydd iaith, Cynog Dafis. Yn yr erthygl hon, cynigir darlleniad craff o bortread McLucas o Dafis trwy edrych ar yrfa wleidyddol Dafis yng nghyd-destun bywyd McLucas ei hun. Symudodd McLucas o'r Alban i Dregroes, Ceredigion, ym 1973. Ar yr un adeg, aeth ati i ddysgu'r Gymraeg. Trafodir portread McLucas fel ymateb hunanymwybodol i'w bresenoldeb ef ei hun fel mewnfudwr i Geredigion, a hynny wrth wynebu Cynog Dafis (aelod o *elite* deallusol ei ddiwylliant mabwysiedig). Wrth wneud hynny, awgrymir perthynas rhwng portread McLucas o Dafis a llun enwog Sidney Curnow Vosper o 1908, 'Salem'. Ar ddiwedd yr erthygl, ceir ôl-nodyn sy'n cysylltu'r drafodaeth ar McLucas a'i bortread o Dafis ag agweddau ar y drafodaeth gyfoes ar fewnfudo ac allfudo yn ardaloedd gwledig Cymru.

## Sel Williams, 'Cloriannu Cymdeithasiaeth: Syniadaeth wleidyddol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg'

Yn yr erthygl hon, edrychir ar gymdeithasiaeth, sef set o syniadau gwleidyddol a ddatblygwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg (CYIG), sy'n codi o brofiad ymgyrchu'r gymdeithas. Prif amcan yr erthygl yw cloriannu cymdeithasiaeth, ac ystyrir y syniadaeth a'r berthynas rhwng y theori ac ymarfer gwleidyddol. Mae cymuned yn greiddiol i athroniaeth cymdeithasiaeth, ac yn yr erthygl hon ceisir ateb y cwestiwn; 'beth yw rôl cymuned a pherthnasedd gwleidyddol cymdeithasiaeth heddiw?' Dechreuir drwy edrych ar syniadaeth cymdeithasiaeth fel y datblygodd ochr yn ochr â phrofiad gweithredu CYIG. Yna edrychir ar y gymuned yng ngwleidyddiaeth Cymru fodern, ynghyd â natur a rôl datblygu cymunedol heddiw. Mae hyn yn gosod sail i'r drafodaeth sy'n dilyn ar gloriannu cymdeithasiaeth.

# Summaries

## Professor Gerwyn Wiliams, 'Cynan, the Establishment and the 1960s' Revolution'

Cynan (Albert Evans-Jones, 1895-1970) was one of the most prominent Establishment figures in Wales for a large part of the twentieth-century. He served as Archdruid twice and played a crucial role in the controversial decision by the Gorsedd of Bards to take part in the Investiture ceremony of Prince Charles in Caernarfon castle on 1 July 1969. He was also one of the authors of the National Eisteddfod's Welsh-language Rule, a policy which he supported firmly during his period as President of the Eisteddfod Court towards the end of his life. In contrast, Dafydd Iwan was one of the main leaders of the Welsh Language Society, the protest group that adopted radical campaigning tactics during the 1960s. In this article, the clash between Cynan and Dafydd Iwan is seen as one representing a struggle about the very definition of Welshness at the time.

## Dr Rowan O'Neill, 'Salem's Peace? A close reading of Cliff McLucas's portrait of Cynog Dafis'

In 1987, the artist Cliff McLucas was working at *Ysgol Gyfun Ddwyieithog Dyffryn Teifi* on a project titled 'The Dyfed Media Residency'. As part of his work, he created a series of portraits of teachers and related staff using the technique of photographic collage. Amongst these pictures is a portrait of the school's English teacher at the time, the politician and Welsh-language activist, Cynog Dafis. I propose a close reading of this portrait that centres on Dafis' public political career in the context of McLucas' own life experience. McLucas moved from Scotland to Tregroes, Ceredigion, in 1973. At the same time he learnt Welsh. McLucas's portrait will be discussed in terms of a self-conscious response to his presence as an incomer in Ceredigion whilst facing a member of the intellectual elite of his host culture. In conclusion, a relationship between McLucas' portrait of Dafis and Sidney Vosper Curnow's painting from 1908, 'Salem', will be suggested. At the end of the article, a short post-script relates the discussion of McLucas' portrait of Dafis to contemporary issues of in-migration and out-migration in and from rural areas of Wales.

## Sel Williams, 'Evaluating 'Cymdeithasiaeth': The political ideas of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg'

This article examines *cymdeithasiaeth*, a set of political ideas developed by *Cymdeithas yr Iaith Gymraeg* (the Welsh Language Society) arising from the Society's campaigning experience. The article's main aim is to evaluate '*cymdeithasiaeth*', and to consider the ideation and the relationship between the theory and political practice. Community is an integral part of the philosophy of '*cymdeithasiaeth*', and the article attempts to answer the question; 'what is the role of community and the political relevance of '*cymdeithasiaeth*' today?' The discussion begins by examining the ideation of '*cymdeithasiaeth*' as it developed alongside *Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*'s experience of direct action. The role of community in the political tradition of Wales in the modern period is discussed, and a critical look is taken at the role of community and community development in today's politics. Finally, a discussion on the evaluation of '*cymdeithasiaeth*' takes place.

Yr Athro Gerwyn Wiliams

# Cynan, Y Sefydliad a Chwyldro'r 1960au

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd Yr Athro Ioan Williams

# Cynan, Y Sefydliad a Chwyldro'r 1960au


## *Yr Athro Gerwyn Wiliams*


Gwibdaith rhwng dau lun yw'r erthygl hon, gwibdaith rhwng ffotograff a ymddangosodd yn ystod Eisteddfod y Bala 1967 ac un arall a dynnwyd bedair blynedd yn ddiweddarach yn Eisteddfod Bangor 1971.[1]




***Ffigwr 1: Y llun drwgenwog a ymddangosodd ar dudalen saith rhifyn Eisteddfod Genedlaethol y Bala 1967 o Lol. Cafwyd caniatâd i'w atgynhyrchu gan y Lolfa.***

Ni fyddai'r llun cyntaf yn ennill unrhyw wobrau mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth ar sail ei dechneg neu ei gelfyddyd; nid cynnyrch lens Geoff Charles na Philip Jones Griffiths mohono ond llun asiantaeth fasnachol. Llun a argraffwyd ar dudalen saith y cylchgrawn *Lol* yw hwn, trydydd rhifyn y cylchgrawn blynyddol a sefydlwyd ym 1965 gan Robat Gruffudd a Penri Jôs (fel y galwai Penri Jones ei hun bryd hynny), a chylchgrawn sy'n fynegiant o'r ymdeimlad newydd o Gymreictod a oedd yn datblygu ar y pryd. Dair blynedd cyn sefydlu traddodiad tudalen tri y *Sun*, dyma enghraifft o Gymru bowld 1967

[1] Gw. *Lol* (1967), 3, 7, am gopi o'r llun cyntaf, a Rhys, Manon (gol.) (1981), *Dafydd Iwan: Cyfres y Cewri 1* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd), t. 151, am gopi o'r ail un. Am resymau yn ymwneud â hawlfraint, ni chynhwysir yr ail lun yn yr erthygl hon.

a llun a fyddai'n garreg filltir bwysig yn y broses o ddadbiwritaneiddio cyhoeddiadau Cymraeg. Ond yn fwy na'r ddelwedd o ferch fronnoeth gyda'r geiriau 'SENSOR' ar draws ei mynwes, yr hyn a barodd fwyaf o dramgwydd ar y pryd oedd y capsiwn bach yng nghornel ucha'r llun: 'Bu Cynan Yma'.

Cynan, neu Albert Evans-Jones (1895-1970), oedd un o gynrychiolwyr amlycaf y sefydliad yng Nghymru ar y pryd; bron nad oedd yn sefydliad cenedlaethol yn ei hawl ei hun. Ac mewn termau eisteddfodol, teyrnasai Cynan: ym 1966 daeth ei ail dymor digynsail fel Archdderwydd i ben ac ailafaelodd yn y swydd a ddaliodd er 1935 fel Cofiadur yr Orsedd; yna ym 1967 dilynodd T. H. Parry-Williams yn Llywydd Llys yr Eisteddfod. Roedd felly'n gymeriad a fynnai barch, yn ffigwr awdurdodol a dylanwadol. Cyfeirio at un o'i swyddogaethau sefydliadol eraill a wnâi'r cyfeiriad at sensor: er 1931, Cynan oedd darllenydd dramâu Cymraeg yr Arglwydd Siambrlen, ac fe'i cynghorai ynghylch priodoldeb dramâu i'w trwyddedu ar gyfer eu llwyfannu'n gyhoeddus; roedd yr Arglwydd Siambrlen a weithredai o Balas Sant James yn Llundain yn un o brif swyddogion y frenhiniaeth. Cyfeiriad cellweirus at y swydd hon a ddaliai Cynan, felly, oedd y cyfeiriad at sensor gan nad oedd sensro cyhoeddiadau printiedig ymhlith dyletswyddau'r swydd honno. Deuai swydd sensor y ddrama i ben ym 1968 wrth i flaensensoriaeth ar ddramâu llwyfan ym Mhrydain brofi'n fwyfwy anghynaliadwy. Ond beth bynnag am gymhellion cyhoeddwyr *Lol* wrth gyhoeddi'r ddelwedd, mae'n amlwg na welai Cynan ddim byd diniwed ynddi. I'r gwrthwyneb, yr hyn a welai ef oedd ensyniad ac *innuendo*, ac er mwyn gwarchod ei enw da'n gyhoeddus, aeth i gyfraith ar unwaith. O ganlyniad, bu Brinley Richards ar ran Cynan a Robyn Léwis ar ran *Lol* wrthi'n cyfreitha ar hyd yr wythnos, tynnwyd y cyhoeddiad tramgwyddus o'r silffoedd a chytunwyd ar setliad a oedd wrth fodd Cynan.

Mor ddiweddar â 1995, roedd Robat Gruffudd yn dal i fynnu mai 'dipyn o hwyl a thipyn o gyhoeddusrwydd' oedd y cyfan:

> Dydw i ddim yn deall hyd heddiw beth oedd yr holl ffys ... Roedd y peth ei hunan yn ofnadwy o ddiniwed, ond efallai ei fod yn dweud rhywbeth am y cyfnod a rhywbeth am Cynan.[2]

Ond o'r ymateb a ddenodd, roedd y llun wedi camu dros ryw linell a golygai ei natur bersonol ei fod yn dod ag elfen newydd i wleidyddiaeth Gymreig y 1960au. Mae'r ymateb rwyf wedi ei gael gan gynulleidfaoedd mewn cymdeithasau llenyddol wrth drafod Cynan yn ddigon i awgrymu bod o leiaf ddau Gynan: Cynan barchus a chyhoeddus seremonïau'r Orsedd a'r pulpud ar y naill law; Cynan gyfeillgar a chymdeithasgar a gâi flas ar fywyd ar y llall. Ac yn ôl y sylwadau digymell yn ystod ambell sgwrs ar ôl darlith, Cynan â chyneddfau heterorywiol cryfion a fwynhâi gwmni merched. Ond pethau a ddywedir yn ddistaw bach yw'r rhain o hyd, awgrym o ddeuoliaeth bron iawn Fictoraidd rhwng delwedd gyhoeddus a realiti personol. Onid yr hyn yr oedd y llun hwn yn ei awgrymu felly oedd rhagrith un o brif aelodau'r sefydliad Cymraeg? Un o arwyddeiriau'r mudiad ffeministaidd, slogan dylanwadol a fathwyd ym 1969, oedd fod y personol yn wleidyddol.[3] Rwy'n rhyw amau a yw dangos lluniau pryfoclyd o ferched bronnoeth yn rhoi cyhoeddiad

---

2 Dyfynnwyd yn *Cynan*, yr ail mewn cyfres o dair rhaglen ddogfen a ddarlledwyd ar S4C ym 1995 i arwyddo canmlwyddiant geni Cynan ym 1895; cynhyrchiad Ffilmiau Eryri Cyf. ar gyfer S4C.

3 Gw. Hanisch, Carol (Chwefror 1969), 'The Personal is Political', www.carolhanisch.org/CHwritings/PIP.html. (Cyrchwyd: 19 Gorffennaf 2013.)

fel *Lol* ar yr un pegwn gwleidyddol â'r mudiad ffeministaidd! Ond er nad oedd Robat Gruffudd a Germaine Greer o reidrwydd yn gymheiriaid ideolegol, yn yr ystyr nad oedd ffin eglur bellach rhwng y pau cyhoeddus a'r un personol ac yn eu sialens i'r *status quo*, roedd yna o leiaf dir cyffredin rhwng y ddau.

Er gwaetha'r cytundeb cyfreithiol rhwng Cynan a *Lol*, roedd y drwg wedi ei wneud a'r berthynas rhwng un o gonglfeini'r sefydliad Cymreig ac ifainc radical y 1960au wedi ei selio. Doed Eisteddfod y Barri ym 1968 a byddai Cynan yn benderfynol o wahardd *Lol* o faes yr Eisteddfod, penderfyniad dadleuol a ddarluniodd Gyngor yr Eisteddfod fel corff anoddefgar a dialgar, a'r diwedd fu tynnu'r gwaharddiad yn ôl. Serch hynny, mor ddiweddar ag Eisteddfod y Fflint ym 1969, roedd Cynan ei hun fel petai'n dal yn benderfynol o geisio gwahardd y cyhoeddiad.[4]

*Lol* 1967, felly, a drodd y drol ac a chwerwodd y berthynas rhwng Cynan a chenhedlaeth ifanc Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn y 1960au. Ac eto, onid oedd mwy yn uno'r ddwy ochr nag a'u gwahanai gyda golwg ar y Gymraeg? Erbyn ail hanner y 1960au, roedd amryw aelodau o sefydliad yr Eisteddfod yn poeni bod ei rheol iaith yn peryglu yn hytrach nag yn diogelu ei pharhad. Âi'n fwyfwy anodd sicrhau nawdd gan awdurdodau cyhoeddus a chynghorau mewn rhannau Seisnigedig o Gymry, a chredai rhai fod angen ailedrych ar y rheol a fu'n weithredol er 1952 i weld a ellid ei diwygio er mwyn cynnwys mwy ar y di-Gymraeg o fewn y brifwyl. Parodd yr holl fater rwyg mawr rhwng Cynan ac aelodau eraill o Gyngor yr Eisteddfod, yn eu plith Gymry da fel Syr David Hughes Parry, Syr Thomas Parry, Ernest Roberts a Brinley Richards a fynnai edrych yn bragmataidd ar bethau. Ond er ei gyhuddo o ymagweddu'n emosiynol ar y pryd, gwrthodai Cynan ildio dim. Wedi'r cyfan, oni fu'n un o rhai a bwysodd drymaf am gymal iaith yng nghyfansoddiad yr Eisteddfod, rhywbeth a'i gwahaniaethai oddi wrth naws Seisnigaidd y brifwyl yn y 1930au? Pan ymatebodd Cynan yn Hydref 1967, er enghraifft, i lythyr yn *Y Cymro* gan T. Llew Jones yn mynnu ei fod ef yn datgan ei safbwynt ar y mater, anfonodd Thomas Parry lythyr siort ato'n ei geryddu'n ddiflewyn ar dafod:

> Yr wyf wedi synnu a rhyfeddu o weld eich erthygl yn *Y Cymro* ... Beth yn y byd a ddaeth dros eich pen? Y mae cyhoeddi peth fel hyn ar hyn o bryd yn gwbl anfaddeuol ... Yn eich swydd newydd o Lywydd yr Eisteddfod fe ddylech chwi yn bendifaddau gymryd agwedd fwy diduedd na hyn, neu o leiaf beidio â dangos eich ochr yn gyhoeddus … Yr wyf yn gwbl sicr yn fy marn nad oes dim i chwi ei wneud, a bod yn anrhydeddus, ond ymddiswyddo o'r panel.[5]

Y panel dan sylw oedd yr un y pleidleisiodd y Cyngor, drwy fwyafrif bach, o blaid ei godi i ystyried goblygiadau'r Rheol Gymraeg, ac fel aelod ohono, dadleuai Thomas Parry ei bod hi'n gwbl amhriodol i Cynan fynd i'r wasg i ddatgan ei safbwynt cyn i'r panel hwnnw hyd yn oed gyfarfod. Pan gyfarfu'r Cyngor ym Mawrth 1968 i drafod adroddiad y panel, y diwedd fu ei fod 'yn dal at yr egwyddor Gymraeg, oherwydd mai hyrwyddo'r diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg yw dibenion sylfaenol yr Eisteddfod Genedlaethol'.[6]

---

4 Gw. Wiliams, Gerwyn (2012), 'Pob Beirniadaeth Drosodd? Diwedd Teyrnasiad Cynan', *Llên Cymru*, 35, 68-115.

5 Gw. copi o lythyr Thomas Parry at Cynan, 6 Hydref 1967, Papurau Brinli (Brinley Richards), 13/10, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

6 Cofnodion y Cyngor, 22-23 Mawrth 1968, Papurau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ff/232, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Yr hyn y mae'r datganiad terfynol hwnnw'n ei guddio yw misoedd o ffraeo rhwng aelodau'r Cyngor, ond er iddo dynnu amryw yn ei ben ar y pryd, agwedd benderfynol a digyfaddawd Cynan a orfu yn y diwedd.

Perthynas i *Lol* a argraffwyd yng ngwasg arloesol Robat Gruffudd oedd *Tafod y Ddraig*, misolyn Cymdeithas yr Iaith, ac roedd llawer o orgyffwrdd rhwng personél y ddau gyhoeddiad. Yn rhifyn tramgwyddus Eisteddfod y Bala o *Lol*, er enghraifft, enwir Elwyn Jôs (Elwyn Ioan yn y man) yn olygydd, Penri Jôs yn gyfrifol am fusnes, a chyfeirir at y 'dewrion' eraill sef Dafydd Iwan, Gareth Meils, Lyn Ebenezer, Huw Ceiriog, Tegwyn Jôs, y ddau frawd Heini a Robat Gruffudd a'r brodyr Dafydd ac Alcwyn Ifans (meibion Gwynfor Evans). Ac mae'n werth sylwi wrth fynd heibio ar y modd y Cymreigiwyd eu henwau a'u sillafu'n ffonetig fel arwydd ymwybodol o'u Cymreictod amgen ac ymwahanol. Cyn ffrwgwd 1967, bu agwedd *Tafod y Ddraig* tuag at Cynan a'r Eisteddfod yn ddigon parchus. Er enghraifft, wrth gloriannu Eisteddfod Abertawe 1964, diolchwyd yn rhifyn Medi i bawb, 'o Gynan i Gwmni Walls a'i "Hufen Ia" Cymraeg, a gofiodd mai Prifwyl y Cymry Cymraeg yw'r Eisteddfod Genedlaethol. Eleni eto, mae llwyddiant yr Eisteddfod (gyda'i Rheol Gymraeg) yn profi nad yw nawddogaeth ariannol y mamoniaid gwrth-Gymreig yn anhepgor'.[7] Flwyddyn yn ddiweddarach, dan y pennawd 'Seisnigrwydd Maes yr Eisteddfod', roedd hi'n amlwg fod y Gymdeithas yn cadw llygad barcud ar y brifwyl: adroddwyd bod gwelliant wedi bod o ran y Gymraeg ar stondinau ar y Maes ers iddi gwyno wrth Gyngor yr Eisteddfod ym 1963 a 1964, ond roedd nifer fawr o bebyll o hyd heb fawr o Gymraeg a byddid yn anfon y rhestr o bechaduriaid at Gyngor yr Eisteddfod ac yn dal i bwyso arno.[8]

Fodd bynnag, ar ôl isetholiad Caerfyrddin ar 14 Gorffennaf 1966 pan etholwyd Gwynfor Evans yn aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru, newidiodd natur y gêm wleidyddol: cynyddwyd uchelgais yr ymgyrchwyr ifainc, cryfhawyd eu penderfyniad, a chodwyd lefel y cynnwrf. Targed protestiadau aelodau Cymdeithas yr Iaith yn Eisteddfod Aberafan 1966 oedd Cledwyn Hughes, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng ngweinyddiaeth Lafur Harold Wilson; roedd yn un o Lywyddion y Dydd yr Eisteddfod honno ac fe'i derbyniwyd hefyd i'r wisg wen. Yn ei gyfarfod ddiwedd Awst 1966, cyfeiriodd Cadeirydd Cyngor yr Eisteddfod, Emrys Roberts, at y ffaith fod un caban ar faes Eisteddfod Genedlaethol Aberafan wedi ei ddefnyddio fel canolfan i rannu pamffledi a ymosodai 'yn bersonol' ar Cledwyn Hughes ac i drefnu gorymdaith ar y Maes yn ei erbyn.[9] Âi hyn yn groes i amodau tenantiaeth ar y Maes a nodai'n glir na chaniateid 'unrhyw weithgareddau na phropaganda gwleidyddol ar faes yr Eisteddfod', a holwyd a oedd angen cryfhau'r rheol.[10] Ac yntau'n gyfaill personol i Cledwyn Hughes, roedd y mater hwn yn dân ar groen Cynan. Meddai wrth Owen Edwards mewn cyfweliad teledu ym 1967:

> Dwi ddim yn hoffi rŵan y busnes trais na malais yma sy'n bygwth dod i mewn i fywyd Cymru, yn enwedig pan wela i'r peth yn dod i mewn i gae'r Eisteddfod … Doeddwn i ddim yn licio'r ymosodiad maleisus ar Lywydd y Dydd yn yr Eisteddfod yn Aberafan.

---

7 'Nodion o'r Brifwyl – Abertawe 1964' (1964), *Tafod y Ddraig*, 12, Medi, 2.

8 *Tafod y Ddraig* (1965), 24, Medi, 1.

9 'Memorandwm Cyfrinachol – Emrys Roberts, Cadeirydd y Cyngor' (26 Awst 1966), Papurau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cofnodion y Cyngor 7 Ionawr 1966-9 Awst 1967, Ff/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

10 Ibid.

> Rydw i'n credu bod yna un man lle y dylen ni fod yn un. Rydan ni'n un yn yr Orsedd – does yna ddim gwahaniaeth dosbarth na sect na phlaid yn yr Orsedd – ac felly y dylai hi fod ar faes yr Eisteddfod. Mi ddylai Cymru fod yn un yn y fan honno. Waeth gen i faint o'r dadleuon politicaidd sydd y tu allan, ond ar faes yr Eisteddfod mi ddylen ni fod yn un pa mor fawr bynnag ydi'r gwahaniaethau barn rhyngom ni.[11]

A'r un oedd barn Gwyndaf a ddilynodd Cynan fel Archdderwydd ym 1966: mewn ysgrif yn *Tafod y Ddraig* yn Awst 1967, dywedodd fod

> ymddygiad carfan fechan o aelodau'r Gymdeithas brynhawn dydd Iau ar faes yr Eisteddfod yn Aberafan y llynedd (1966) yn gwbl annheg, yn greulon ac yn wrth-Gymreig. Cymraeg yw iaith gyntaf a iaith aelwyd y Gwir Anrhydeddus Cledwyn Hughes, ei briod a'i blant, ac yn bendifaddau nid maes yr Eisteddfod yw'r man i anghytuno ag ef oherwydd agwedd y Llywodraeth y perthyn iddi at ferthyron yr iaith.[12]

A'r tu ôl i'r llenni, caed hyd yn oed enghraifft brin o sensoriaeth wleidyddol gan Cynan wrth iddo argymell i'r Arglwydd Siambrlen beidio â rhoi caniatâd i un sgets yn y rifíw *Deud Yda Ni* a oedd i'w pherfformio gan Gwmni Theatr Cymru yn Eisteddfod y Bala:

> To my mind this is a scurrilous and well-nigh libellous misrepresentation of the Minister (Cledwyn Hughes) by an obvious enemy in the Welsh Nationalist Party, and it ill befits the non-political atmosphere of Eisteddfod week, where it may well cause a riot – especially as Mr Cledwyn Hughes is visiting the Eisteddfod.[13]

Yr awduron, gyda llaw, oedd Gwenlyn Parry, Rhydderch Jones, Wil Sam, John Roberts (prifathro Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon yn ddiweddarach yn ei oes), Dafydd Glyn Jones a Bruce Griffiths.

Os edrychir ar *Lol* a *Tafod y Ddraig* o Awst 1967 ymlaen, mae'r agwedd tuag at y sefydliad Cymreig yn troi'n fwyfwy diamynedd a beirniadol: rhwng hynny ac Ebrill 1968, er enghraifft, pan gollodd Cledwyn Hughes ei swydd yn y Swyddfa Gymreig i George Thomas, caed cartŵn deifiol gan Elwyn Ioan ohono, yn aml ar y clawr, ym mhob rhifyn o *Tafod y Ddraig*.

Yn rhifyn Hydref 1967 o'r cylchgrawn yr ymagweddwyd am y tro olaf yn barchus tuag at Cynan drwy ei longyfarch ar ei lythyr 'cadarn' yn *Y Cymro* yn cefnogi'r Rheol Gymraeg. Ond yn yr un rhifyn mynegwyd siom ym mhenderfyniad Cynan a Gwyndaf i dderbyn gwahoddiad i bwyllgor yr Iarll Farsial a drefnai'r Arwisgo. Ac os oes un digwyddiad a holltodd farn o'i blaid neu yn ei erbyn yn ail hanner y 1960au yna'r Arwisgo yw hwnnw. Ar ôl hynny, doedd dim maddeuant i Cynan: bu'n gyff gwawd i *Tafod y Ddraig* a *Lol*, ac aelodau eraill o'r sefydliad a ddaeth o dan y lach oedd y Llafurwyr Goronwy Roberts, Elystan Morgan, I. B. Griffith, a dau fel T. H. Parry-Williams a Thomas Parry a gefnogodd

---

[11] Cynan yn cael ei holi mewn cyfweliad stiwdio gan Owen Edwards yn y rhaglen *Dal Pen Rheswm* a ddarlledwyd gyntaf ar BBC ym 1967; cynhwyswyd clip o'r rhaglen yn *Cynan*, cyfres o dair rhaglen deledu a ddarlledwyd gyntaf ym 1995 i arwyddo canmlwyddiant geni Cynan ac a gynhyrchwyd gan Ffilmiau Eryri Cyf. ar gyfer S4C.

[12] Evans, E. Gwyndaf (1967), *Tafod y Ddraig*, 1 (y gyfres newydd), Awst (5-6).

[13] Adroddiad Cynan (26 Gorffennaf 1967), LCP (Lord Chamberlains's Plays) Corr. 1967/1709, Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain. Gw. Gerwyn Wiliams (2013), 'Bu Cynan Yma: Sensoriaeth a'r Ddrama Gymraeg, 1931-1968', yn Tudur Hallam ac Angharad Price (goln), *Ysgrifau Beirniadol XXXII* (Bethesda: Cyhoeddiadau Gee), tt. 11-79.


TAFOD Y DDRAIG

MISOLYN
CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG
pris 6ch

RHIFYN AWST 1967 Rhif 1



BWRIEDIR cyhoeddi y 'Tafod' yn fisol unwaith eto. Mae cymaint o weithgarwch ymarferol ar droed yng Nghymru heddiw ym mrwydr yr iaith fel bod pwyllgor canolog Cymdeithas yr Iaith -

***Ffigwr 2: Cartŵn nodweddiadol gan Elwyn Ioan o Cledwyn Hughes ar glawr rhifyn Eisteddfod y Bala 1967 o Tafod y Ddraig, (c) Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, cymdeithas.org.***

yr Arwisgo. Yr un oedd y patrwm yn *Lol*: er enghraifft, mewn drama a oedd yn barodi o *Batman*, castiwyd Cynan gan Lyn Ebenezer yn rhan (Eirwyn) Pontsian/Ystlumddyn ynghyd ag aelodau eraill amlwg o'r sefydliad fel Emrys Cleaver, Aneirin Talfan Davies, Frank Price Jones, George Thomas, a Thywysog Cymru 'gyda chaniatâd caredig ei fam a Mr I. B. Griffith'.[14] Wrth dalu teyrnged i T. H. Parry-Williams ar ddiwedd ei gyfnod fel Llywydd Llys yr Eisteddfod ym 1967, dywedodd Cynan yn arwyddocaol:

---

14 *Lol* (1968), 4, Haf, 14.

> ar lwyfan yr uchelwyl fe ddangosodd ef ... sut y gellir estyn croeso cynnes ac urddasol i'r Frenhines ac i Iarll Meirionnydd heb gyfaddawdu yr un iod ar Gymreigrwydd y gweithrediadau.[15]

Ond doedd gan ei wrthwynebwyr ddim cydymdeimlad o gwbl gyda'r modd yr uniaethai Cynan y frenhiniaeth gyda Chymreictod. A chan nad oedd dim yn ymataliol am gefnogaeth Cynan i'r Arwisgo a'i fod mor angerddol dros y frenhiniaeth ag a fu dros y Gymraeg wrth amddiffyn y Rheol Gymraeg, ef a feirniadwyd ac a ddychanwyd fwyaf gan wrth-Arwisgwyr ar y pryd.

Er bod amddiffyniad Robat Gruffudd o *Lol* 1967 yn awgrymu rhywbeth sy'n nes at y *cock-up theory of history*, h.y. rhywbeth sy'n digwydd ar ddamwain yn hytrach nag o fwriad, nid llun diniwed ei arwyddocâd o bell ffordd mo hwnnw yn *Lol* 1967. Cynrychiolai'r llun ymosodiad heriol yr ifainc ar y sefydliad yng Nghymru. Wrth wneud hynny, cwestiynwyd anffaeledigrwydd y sefydliad hwnnw, heriwyd ei awdurdod a'i hawl i gael ei gyfri'n ddiamod yn ymgorfforiad swyddogol o Gymreictod ac yn fynegiant cyhoeddus o ddyheadau cenedl y Cymry. Roedd Cymreictod yn y 1960au yn datblygu'n rhywbeth llai unffurf – os bu'n unffurf erioed – ac yn fwy amrywiol a phliwralistaidd. Dim ond tri arwydd o hynny oedd sefydlu Merched y Wawr, Sain a'r Lolfa. Yn arwyddocaol, roedd un o brif arweinwyr mudiad iaith y degawd, Dafydd Iwan, hefyd yn un o brif leisiau diwylliant pop y cyfnod, ac wrth iddo gofnodi hanes canu poblogaidd Cymraeg, Hefin Wyn a gyfeiriodd at

> isddiwylliant Cymraeg (yn) (d)atblygu ymhlith ieuenctid oedd yn torri'n rhydd o hualau Nosweithiau Llawen ac adloniant a drefnid ar eu cyfer gan oedolion "sgwâr". Roedd yna garfan o ieuenctid ... am greu eu sîn eu hunain ar sail Cymreictod heriol ac ymosodol.[16]

Delwedd deuluol a feddai'r Eisteddfod ohoni ei hun: cyflwynai ei hun fel corff ymbarél i Gymreictod y gallai pob mynegiant ar y bywyd Cymreig gyd-uno dani am wythnos a rhoi gwahaniaethau i'r naill ochr er lles lletach y Gymraeg. Ond a'r gwres gwleidyddol wedi codi yn y 1960au, gyda'r ymwybod newydd o dynged yr iaith ac argyhoeddiad yr ifainc y byddai'n rhaid wrth ddulliau chwyldro i'w harbed, doedd rhoi gwahaniaethau gwleidyddol i'r naill ochr i amryw ddim yn opsiwn. I'r gwrthwyneb, llwyfan unigryw i fanteisio arno i dynnu sylw at fregusrwydd y seiliau a'i cynhaliai oedd yr ŵyl, ac os holi a oedd heddwch a wnâi'r Orsedd yna siarsio Cymry i'r gad a wnâi'r Gymdeithas.

Yr hyn y mae pennod *Lol* yn Eisteddfod y Bala'n ei brofi yw fod y mudiad iaith newydd ynglŷn â llawer mwy na'r iaith. Roedd y mudiad hwnnw ynglŷn â math gwahanol o Gymreictod, Cymreictod nad ystyriai ei hun yn rhan fach integreiddiedig a chydweithredol o Brydeindod mwy ond Cymreictod ymwahanol, Cymreictod yn ei hawl ei hun ac ar ei delerau ei hun. Cynrychioli'r math o Gymru yr oeddid am ymwrthod â hi ac ymryddhau oddi wrthi a wnâi Cynan; roedd yn ymgorfforiad o Gymreictod cydymffurfiol, cymedrol, a chytûn; yn enghraifft o'r hyn a alwodd Gerallt Lloyd Owen ym 1969 yn Gymro o '(g) ymedrol nwyd', un o'r Cymry 'a Brydeiniwyd', ffaith a gadarnhawyd ymhellach pan

---

15 Cynan (1967), 'Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol', yn Idris Foster (gol.), *Cyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry-Williams* (Llandysul: Llys yr Eisteddfod Genedlaethol), t. 138.

16 Wyn, Hefin (2002), *Be Bop a Lula'r Delyn Aur: Hanes Canu Poblogaidd Cymraeg* (Talybont: Y Lolfa), tt. 92-3.

ddyrchafwyd ef yn Syr Cynan wythnos yn unig ar ôl yr Arwisgo.[17] Tra ymfalchiai'r sefydliad Cymraeg – gwŷr fel Syr Ifan ab Owen Edwards, Frank Price Jones, Huw T. Edwards, T. I. Ellis a Glanmor Williams – y byddai Cymreictod a Llafuryddiaeth yn cerdded law-yn-llaw ar ôl Etholiad Cyffredinol Mawrth 1966, profodd llwyddiant etholiadol Gwynfor i eraill fod dull amgen o gynrychiolaeth seneddol yn bosib, a'u gwneud yn ddiamynedd am newid pellach. A thra mynnai Cynan a Gwyndaf y byddai clywed y Tywysog Siarl yn llefaru yn Gymraeg yn gwneud byd o les i'w delwedd, yn rhoi sêl bendith brenhinol arni, gwrthwynebu'r Arwisgo fel arwydd o goncwest Lloegr ar Gymru a wnâi'r ifainc mwyaf gweithredol a chyfri Siarl a'i deulu'n amherthnasol i Gymru'r oes a oedd ohoni a wnâi eraill.

A dyma ddychwelyd at yr ail lun y soniwyd amdano ar ddechrau'r sylwadau hyn a'r amlycaf o'r tri yn y llun hwnnw, sef Dafydd Iwan. Rhwng 1968 a 1971, ef oedd Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith a bu yn llygad y cyhoedd yn sgil yr ymgyrch wrth-Arwisgo. 'Y Gŵr sydd wedi dod â Gwarth ar Bob Cymro' oedd disgrifiad *Yr Herald Gymraeg* ohono, papur dan olygyddiaeth y Tori John Eilian a anogodd bobl i beidio â phrynu ei record 'Carlo', ond record a werthodd filoedd o gopïau serch hynny. Mae'r ffaith na welais lun o Cynan a Dafydd Iwan gyda'i gilydd yn cadarnhau'r canfyddiad o bellter ideolegol a phersonol rhwng dau o brif gynrychiolwyr gwahanol fathau o Gymreictod. Ac ni chaed gwell amlygiad o'r ddau Gymreictod hwnnw'n ymrafael â'i gilydd am oruchafiaeth nag yn ystod yr Arwisgo. Chwedl John S. Ellis yn ei astudiaeth o'r achlysur:

> *the dispute over the meanings of the investiture was really a contest between different visions of the nature of the Welsh nation and its relationship to the British state.*[18]

Ni welais chwaith unrhyw sylw penodol gan Cynan am Dafydd Iwan, ond yn ôl un o gyfeillion pennaf Cynan, Ernest Roberts, roedd 'yn gas ganddo weithgareddau Cymdeithas yr Iaith'.[19] Dan arweinyddiaeth Dafydd Iwan, yr hyn a wnaeth Cymdeithas yr Iaith oedd cynnig model amgen o Gymreictod ym 1969. Un stori sy'n darlunio hynny yw honno yn hunangofiant diweddar Elfyn Williams, sef yr unig aelod o Heddlu Gogledd Cymru a oedd ar ddyletswydd yng Nghastell Caernarfon ar 1 Gorffennaf 1969. Cyrhaeddodd gae fferm Treborth Uchaf ger pont Britannia ar fore'r Arwisgo lle y trefnwyd i'r teulu brenhinol (heblaw'r Tywysog) ddod mewn trên bach disel. Ei dasg ef oedd cadw cwmni i Sian Williams, gwraig Bleddyn Williams a oedd yn berchen ar y tir, ac ar ôl iddi gyrraedd, gofynnodd y Frenhines am gael ei gweld er mwyn medru diolch iddi'n bersonol am gael defnyddio'r cae:

> Y peth cyntaf a ddywedodd (Sian Williams) wrthyf oedd: 'Dafydd Iwan ydi'n tywysog ni'! 'O mam bach,' meddwn i wrthyf fy hun ... Gwrthododd Mrs Williams (gyfarfod y Frenhines) gan ddweud nad oedd eisiau ei chyfarfod, ei bod wedi ei chyfarfod o'r blaen ym Mhlas Buckingham pan urddwyd ei thad, Bob Owen, Croesor gyda'r OBE! Meddai'r Prif (Gwnstabl), a chwys yn ymddangos ar ei dalcen: 'Er fy mwyn i,

---

17 Owen, Gerallt Lloyd (1990), 'Fy Ngwlad', *Cerddi'r Cywilydd* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd), t. 24.

18 Ellis, John S. (2008), *Investiture: Royal Ceremony and National Identity in Wales, 1911-1969* (Cardiff: University of Wales Press), t. 245.

19 Ernest Roberts mewn llythyr at Brinley Richards (26 Ionawr 1977), Papurau Brinli, 40/4/50, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

> Mrs Williams, a wnewch chi gyfarfod â hi?' Dyma hi'n troi at y plant a gofyn iddynt: 'Ydach chi eisiau cyfarfod y Frenhines?' Wrth gwrs, atebodd y plant yn gadarnhaol. O gornel ei geg dywedodd wrthyf: '*Come forward, Williams*,' a diolchodd y Frenhines i'r wraig am gael defnyddio'r cae.[20]

Yn fwy diweddar, bu Elfyn Williams a Sian Williams yn hel atgofion am y ddau ohonynt yn cyd-ganu 'Carlo' Dafydd Iwan! Dyna enghraifft o'r modd yr oedd Dafydd Iwan ar y pryd wedi cydio yn nychymyg, nid yn unig y to ifanc, ond hefyd y to canol oed yn yr achos hwn, ac un o deulu Cymreig a oedd wedi derbyn anrhydedd frenhinol yn y gorffennol bellach yn ymwadu â'r frenhiniaeth Brydeinig. Y mae'n bennod sy'n dangos fel y crisialwyd ac y polareiddiwyd barn ar y pryd.

Beth felly am farn Dafydd Iwan am Cynan? Dyma rai o'i sylwadau mewn rhaglen ddogfen a ddarlledwyd ym 1995 ar achlysur canmlwyddiant geni Cynan:

> Yn y '60au, wrth gwrs, roedd Cynan yn cyfleu y math o bwysigrwydd, y math o barchusrwydd, y cowtowtio i'r Frenhiniaeth ac ati oedd yn un o'r pethau yr oedden ni am newid … Roedd Cynan yn cynrychioli trefn yr oedd rhaid ei newid. Ond doedd gen i ddim atgasedd tuag at y dyn o gwbl. Mae gen i lawer iawn o barch at steil Cynan, at y ffordd yr oedd e'n gallu bod yn rhwysgfawr a Chymreig yr un pryd. Dwi'n meddwl ei fod o'n rhan bwysig iawn o'r Gymru fodern, a'i gyfraniad pwysicaf ef, mae'n debyg, ydi'r Rheol Gymraeg yn yr Eisteddfod.[21]

Ac yn fwy diweddar byth, yn ei hunangofiant, dywedodd fod aelodau Cymdeithas yr Iaith ar y pryd, 'drwy ein gweithredoedd uniongyrchol dros yr iaith ac yn erbyn yr Arwisgo, wedi chwalu'r hen syniad o Gymreictod saff, parchus, lled-grefyddol ("iaith y Nefoedd" ac ati), neis-neis, meddal, oedd ar yr un pryd yn gallu cyd-fyw'n braf gyda Phrydeindod Seisnig ac addoli'r Teulu Brenhinol'.[22]

Craffwn yn fanylach ar yr ail lun. Y cefndir yw Neuadd Pritchard Jones ar Ffordd y Coleg ym Mhrifysgol Bangor lle y cynhelid un o seremonïau urddo aelodau newydd i'r Orsedd yn ystod wythnos Eisteddfod Bangor 1971. Tilsli (Gwilym R. Tilsley), yr Archdderwydd a ddilynodd Gwyndaf ym 1969, sydd yn y canol ac ar y dde iddo mae Ronald Jones, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Ac er mwyn cydnabod ei wasanaeth i'r iaith Gymraeg yr urddwyd Dafydd Iwan yn aelod er anrhydedd o'r Orsedd. Mae hwn hefyd yn llun hanesyddol. Yn un peth, arwydda gymod rhwng arweinydd Cymdeithas yr Iaith a ddefnyddiai ddulliau torcyfraith a chynheiliad cyfraith a threfn. O safbwynt cysylltiadau cyhoeddus yr Eisteddfod, rhydd argraff o gorff eangfrydig a chynhwysol sy'n fodlon ymestyn i gynnwys amryw fathau o Gymreictod, boed sefydliadol neu wrthsefydliadol. Awgryma hefyd gadoediad rhwng yr Eisteddfod a'r Gymdeithas, dau gorff y bu'r gwrthdaro rhyngddynt yn arwydd gweledol o wleidyddiaeth fywiog y 1960au. Mae'n ddelwedd sy'n cydnabod Cymru yng nghanol proses o drawsnewid cymdeithasol a

---

20 Williams, Elfyn (2012), *Y Plismon yn y Castell* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch), tt. 80-1. Cyfeirio at Bob Owen yn cael ei urddo gan y Fam Frenhines yn hytrach na'r Frenhines ei hun a wna Robin Williams (1970) yn *Y Tri Bob* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt. 44-5.

21 Dyfynnwyd yn *Cynan*, cyfres o dair rhaglen deledu a ddarlledwyd gyntaf ym 1995 i arwyddo canmlwyddiant geni Cynan ac a gynhyrchwyd gan Ffilmiau Eryri Cyf. ar gyfer S4C.

22 Iwan, Dafydd (2002), *Cân dros Gymru* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd), t. 44.

gwleidyddol, yn arwydd o'r Eisteddfod hithau'n derbyn newid. Ac erbyn ei dynnu, roedd Cynan, wrth gwrs, ers Ionawr 1970, yn ei fedd. Tybed a fyddai'r achlysur a gofnodir – sef derbyn Dafydd Iwan yn aelod er anrhydedd o'r Orsedd er mwyn cydnabod ei wasanaeth i'r iaith Gymraeg – wedi digwydd petai Cynan o hyd ar dir y byw? Rywsut, rwy'n amau'n fawr iawn! Ac eto ... Fel y dywedais eisoes, o'r cychwyn cyntaf bu'r Gymdeithas ynglŷn â mwy na dim ond yr iaith Gymraeg. Bu ynglŷn â math amgen o Gymreictod. Yn barchus yn gyhoeddus ac yn dryloyw ei ymlyniad wrth y frenhiniaeth, cynrychiolai Cynan sefydliadol wrthbwynt i'r math o Gymreictod a goleddid ac a ddeisyfid gan aelodau ifainc y Gymdeithas. O'r herwydd, bu'n gymorth i ddiffinio'r math amgen hwnnw o Gymreictod. Yn anfwriadol, felly, bu Cynan a'r sefydliad yn gymorth i hyrwyddo chwyldro'r 1960au.

Dr Rowan O'Neill

# Heddwch Salem? Astudiaeth o bortread Cliff McLucas o Cynog Dafis

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

# Heddwch Salem?
# Astudiaeth o bortread Cliff McLucas o Cynog Dafis

## *Dr Rowan O'Neill*

### Cyfnod preswyl Cyfryngau Dyfed

Yn y flwyddyn 1987, cyflwynodd yr artist Cliff McLucas (1945-2002) gais llwyddiannus i dreulio cyfnod fel artist preswyl mewn tair ysgol uwchradd yn rhanbarth Dyfed (Ysgol Gyfun Ddwyieithog Dyffryn Teifi, Ysgol y Preseli ac Ysgol Gyfun Aberaeron). Trefnwyd y cyfnod preswyl gan Awdurdod Addysg Dyfed a Chymdeithas Celfyddydau Gorllewin Cymru. Seiliodd McLucas ei waith yn yr ysgolion ar ffotograffiaeth, ffilm, ynghyd â syniadau ar gynrychiolaeth, creu ystyr, a'r cyfryngau. Gofynnodd i'r disgyblion greu portreadau o bobl a oedd yn gyfarwydd iddynt, yn ogystal â hunanbortreadau gan ddefnyddio techneg *collage*, a hynny er mwyn myfyrio ar y grefft o bortreadu cymhlethdodau pobl o fewn un llun. Yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Dyffryn Teifi (prif hafan y prosiect), creodd McLucas gyfres o weithiau y disgrifiai fel '*large composite photopieces*',[1] sy'n cynnwys cyfres o bortreadau o athrawon yr ysgol. Yn yr adroddiad a ysgrifennodd McLucas ar gyfer Awdurdod Addysg Dyfed yn Ionawr 1988 yn sôn am ei gyfnod preswyl, cyfeiria at y lluniau hyn fel '*interpretive portraits*'. Yn y casgliad, ceir portread gan McLucas o athro Saesneg yr ysgol, sef y gwleidydd a'r ymgyrchydd iaith, Cynog Dafis. Wrth drafod arwyddocâd y portreadau yn ei adroddiad, mae McLucas yn datgan: ' *… I am fascinated by their role in the future as 'official' portraits. How might they be seen in 20 years?*'[2]

Yng ngolau'r cwestiwn uchod, mae'n werth nodi bod y gyfres o luniau a grëwyd gan McLucas yn Ysgol Dyffryn Teifi erbyn hyn yn ffurfio rhan o'i gasgliad yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gyda hynny, gellir cynnig ateb i gwestiwn McLucas ynglŷn â sut yr ystyrid y llun yn y dyfodol: y mae gan y ddelwedd, erbyn hyn, arwyddocâd cenedlaethol. Yn yr erthygl hon, archwilir natur yr arwyddocâd hwnnw trwy ddarlleniad craff o bortread dehongliadol McLucas o Cynog Dafis. Awgrymir bod y ddelwedd nid yn unig yn bortread o Dafis, ond hefyd yn gynrychiolaeth o brofiad McLucas ei hun, a hynny yng nghyd-destun y modd y disgrifiai ei brofiad o fod yn fewnfudwr yng Nghymru, ynghyd â'i berthynas gyda'i ddiwylliant Cymraeg mabwysiedig. Wrth wneud hynny, awgrymir perthynas rhwng portread McLucas o Dafis a llun enwog Sidney Curnow Vosper o 1908, 'Salem', a ddynodwyd yn eicon cenedlaethol Cymreig gan yr hanesydd celf Peter Lord.

Roedd Cynog Dafis yn athro Saesneg yn Ysgol Dyffryn Teifi pan oedd McLucas yn cwblhau ei gyfnod fel artist preswyl yno.[3] Sefydlwyd Ysgol Dyffryn Teifi yn Llandysul o ganlyniad i ad-drefnu addysg uwchradd yn y dalgylch ym Medi 1984, a oedd yn ymgais i ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i fewnlifiad. Yn wreiddiol, nodwyd mai Ysgol Uwchradd Aberaeron fyddai prif hafan y prosiect lle cyflawnid rhan fwyaf y gwaith,

---

1 Casgliad Cliff McLucas, RR1/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
2 Ibid.
3 Roedd Dafis wedi symud o Ysgol Gyfun Saesneg Castell Newydd Emlyn, y bu'n athro ynddi ers Medi 1962.

gyda chyfnodau byrrach yn cael eu treulio yn Ysgol y Preseli ac Ysgol Dyffryn Teifi. Ar ôl penodi McLucas i'r swydd, serch hynny, penderfynwyd newid prif hafan y gwaith i Ysgol Dyffryn Teifi.[4]

Mewn adroddiad yr ysgrifennodd McLucas ar ei gyfnod fel artist preswyl, mynegodd ei bryderon am y penderfyniad i newid prif hafan y prosiect ynghyd ag effaith hynny ar ei farn am ba mor gymwys ydoedd i wneud y gwaith. Noda yn ei adroddiad:

Being an Englishman … I am acutely aware of my lack of authority to speak of Welsh cultural issues, or to suggest ways of developing materials and methods within specifically Welsh language and cultural contexts. I felt bluntly apprehensive about investigating that kind of discussion within the Residency in Llandysul. I do, however, feel that that discussion must take place.[5]

Yr oedd McLucas, fel y gwelir, yn dra ymwybodol o'i statws fel mewnfudwr a ddysgodd yr iaith yng nghyd-destun ei berthynas â materion diwylliannol Cymreig. Cawsai amheuon felly nad oedd yn gymwys i weithio yn Ysgol Dyffryn Teifi, sy'n ysgol benodedig ddwyieithog lle defnyddir y Gymraeg fel prif gyfrwng, ac y dysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf i'r holl ddisgyblion.[6] Gellir meithrin dealltwriaeth o'r modd y bu iddo ymateb i'r sefyllfa hon trwy astudio'r gwaith a greodd yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol.

**Portreadau dehongliadol**

Mae'r portread o Dafis yn enghraifft o ddelweddau *collage* sy'n nodweddiadol o arddull McLucas yn ystod y cyfnod hwnnw. Crëwyd y ddelwedd trwy uno cyfres o ffotograffau, gydag elfennau printiedig ag ysgrifen drostynt. Yng nghanol y *collage* (sydd o faint A1), dangosir wyneb ac ysgwyddau Dafis. Mae rhan uchaf y ddelwedd yn cynnwys cefndir a grëwyd o daflenni ymgyrch etholiadau Dafis fel ymgeisydd dros Blaid Cymru, ac ar ben y rheiny, gwelir siwmper frowngoch yr ysgol yn amgylchynu ei ben wedi ei phlygu mewn ffordd sy'n awgrymu ffurf y ddraig goch. Yn wir, ceir yn y ddelwedd adleisiau pellach o faner Cymru a'r ddraig goch trwy ddefnydd o'r lliwiau coch, gwyn a gwyrdd. Ar yr olwg gyntaf felly, ceir cyfeiriadaeth gref at wleidyddiaeth a chenedlaetholdeb Dafis yn y portread ohono.

O dan y portread, ceir saith delwedd du a gwyn mewn rhes o Margaret Thatcher, Prif Weinidog Ceidwadol y DU ar y pryd. Mae pob llun ohoni hefyd yn cynnwys gair penodol. Ymddengys y geiriau – sy'n gymysgedd o eiriau Cymraeg a Saesneg – fel rhan o brawf sillafu, gyda'r gwallau wedi'u cywiro mewn inc coch. Gweler isod y geiriau fel yr ymddangosant yn y llun:

DEPEND~~A~~ENT    DI ~~C~~GARTREF    DENIAL~~L~~    DIWEITHRED    DEC~~IE~~EIT


_IBOBLOG~~U~~I    DEVOLUTION

---

4 Ni ddaethpwyd o hyd i'r rheswm pam y newidiwyd hafan y lleoliad gan Awdurdod Addysg Dyfed a Chymdeithas Celfyddydau Gorllewin Cymru.

5 Casgliad Cliff McLucas, RR1/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

6 Y mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn wahanol i Ysgol Gyfun Ddwyieithog Dyffryn Teifi am y gweithredir system ffrydio lle gellir perthyn i ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg.




***Ffigwr 1: 'Mr Cynog Dafis' o gasgliad Cliff McLucas, LlGC***

Sylwer yn benodol ar y marc tic coch a osodwyd wrth ymyl y gair olaf, '*DEVOLUTION*'. Islaw delweddau Thatcher, ceir cyfres o luniau bach eraill sy'n arddangos yr un siwmper ysgol a ddefnyddiwyd i awgrymu siâp y ddraig goch yn hanner uchaf y llun. Rhydd y lluniau hyn sylw i'r label tu fewn i'r siwmper sy'n arddangos y geiriau, '*made in England*'. Ar draws y ddelwedd o Dafis, ceir cyfres o gadeiriau du yn ymestyn o frig y gornel chwith ar letraws i'r gornel dde waelod. Ar bob cadair, ceir rhifau blwyddyn wedi'u printio, gan gychwyn yn '79 hyd at ddyddiad y portread ei hun yn '87, gan ddynodi cyfnod penodol.

Yn eu herthygl '*Fractured intellectuals and the nation*', sonia Fowler a Jones am y modd yr ystyrir unigolion fel Cynog Dafis fel yr *elite* oddi mewn i fudiadau cenedlaethol sydd â'r gallu i arwain uchelgais y genedl.[7] Trwy gydol y saithdegau, yr adeg y symudodd McLucas i Orllewin Cymru, roedd Dafis – yn sgil ei ymwneud ag ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith – yn gyfrannwr dylanwadol at drafodaethau am sefyllfa'r Gymraeg ac effaith mewnlifiad ar hunaniaeth Gymraeg. Cynigir felly bod ymwybyddiaeth McLucas o'r cefndir hwn yn ganolog i'w gynrychiolaeth o Dafis yn y portread. Mae'r ddelwedd yn portreadu'r athro nid yn unig yng nghyd-destun ei waith fel addysgwr, ond hefyd yng nghyd-destun ei waith gwleidyddol fel cenedlaetholwr ac ymgyrchydd iaith. Yn ategol at hynny, ceir cynrychiolaeth o'r modd y bu i'r gwaith hwnnw effeithio ar ymdeimlad McLucas am ei fodolaeth ei hun yng Ngheredigion wrth iddo ymsefydlu fel artist. Trwy ei ddefnydd o '*collage*' o elfennau amrywiol, crea McLucas bortread sy'n dehongli Dafis, y cenedlaetholwr, o'i berspectif diwylliannol ef ei hun, sef perspectif y mewnfudwr.

---

7 Fowler, Carwyn, a Jones, Rhys (2008), 'Fractured Intellectuals and the Nation: Cynog Dafis and Welsh Nationalism', *Contemporary Wales*, 21, 130.

**Mr Cliff McLucas - Yr artist preswyl**

Yn ôl tystiolaeth o'i archif,[8] symudodd McLucas i Dregroes, pentref bach yn Ne Ceredigion, gyda'i bartner Karen Chambers a'u teulu ifanc ym 1973. Yn yr un flwyddyn, aeth ati i ddysgu Cymraeg ynghyd â sefydlu busnes hunangyflogedig fel saer coed arbenigol. Ymhen amser, chwalodd ei berthynas â Karen Chambers, a symudodd McLucas i Aberystwyth ar ôl i Chambers ddychwelyd gyda'r plant i'r Alban. Tra gweithiai fel swyddog arddangosfeydd yng Nghanolfan y Celfyddydau, daeth McLucas i gysylltiad â Chanolfan 'Y 'Sgubor', canolfan annibynnol a gynigiai le i artistiaid gwrdd a chadw stiwdios. Yn ogystal â hynny, gweithredai'r ganolfan fel man cyfarfod ar gyfer grwpiau cymdeithasol. Un o'r grwpiau hynny oedd Grŵp Cyfryngau Aberystwyth a sefydlwyd gan McLucas ym 1984. Darparai'r grŵp hwn weithdai ffilm, ffotograffiaeth a fideo fel rhan o ymateb cyfoes ledled Prydain i'r offer cyfryngol a oedd bellach ar gael i artistiaid, ynghyd â'u potensial i'w defnyddio yn y gymuned. Trefnai'r grŵp gyrsiau hyfforddi, darlithoedd, yn ogystal â dangos ffilmiau, ac roedd McLucas yn aml yn gyfrifol am drefnu a chynnal y cyfryw ddigwyddiadau. Yn sgil y gwaith hwn, daeth McLucas i gyswllt â Chymdeithas Cyfryngau Ceredigion, a geisiai hefyd ddatblygu gwaith cyfryngol ledled Ceredigion, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion.

Ym 1989, ysgrifennodd McLucas ddogfen o'r enw '*Site Specific Media Education*'[9] ar gyfer y grŵp hwn. Mae'r ddogfen yn rhoi awgrymiadau i'r grŵp ynglŷn â sut i weithredu a datblygu eu gwaith dros y flwyddyn ganlynol. Seiliwyd y gwaith hwn ar themâu sy'n ymateb yn y ddogfen i brosiect arbennig, o dan y teitl, 'Y MEWNLIFIAD'.[10] Wrth drafod y broses o gynllunio ar ei gyfer, dywed McLucas iddi fod yn dasg anodd am y rheswm canlynol:

> A desire to claim that rural people in Britain are essentially the same will generate one set of choices, a desire to assert difference will generate others.[11]

Wrth i'r ddogfen fynd rhagddi, gwelir bod y dewisiadau y cyfeiria McLucas atynt wedi'u seilio ar iaith. Yn y bennod, '*How to prevent the death of the Welsh language*', mynega ei farn fod yn rhaid i'r iaith Gymraeg weithredu fel prif hanfod y prosiect:

> I believe that these aims need to be built squarely upon the language, and the need for its continued existence.[12]

Mae'r dewis a wnaeth dros bymtheg mlynedd yn gynt i ddysgu Cymraeg yn gefndir arwyddocaol i'r farn a fynega. Yn yr un flwyddyn, 1973, cyhoeddwyd astudiaeth fanwl o'r cyd-destun gwleidyddol a diwylliannol yng Ngheredigion gan grŵp o wyddonwyr cymdeithasol a oedd yn gweithio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Enw'r gyfrol oedd *The Politics of Rural Wales: A Study of Cardiganshire*, ac mae'n rhoi cipolwg cyfoes ar amodau ac agweddau a oedd yn ymwneud â iaith a gwleidyddiaeth y sir. Cyfeirir yn bennaf at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun gwleidyddiaeth y sir, a hynny yn wyneb dirywiad yr iaith:

---

8 CV a luniwyd flwyddyn cyn marwolaeth Cliff McLucas, Casgliad Cliff McLucas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, E2/4.

9 Casgliad Cliff McLucas, RM4/2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

10 Dyfynnir yn unol â'r ffordd yr ymddengys yn y testun.

11 Casgliad Cliff McLucas, RM4/2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

12 Ibid.

> The state of the language has a central part in Welsh and Cardiganshire politics, because its state has been one of chronic decline. In Wales as a whole the proportion of Welsh speakers has dropped from 87 per cent in 1931 to 26 per cent in 1961 (Census Reports). Cardiganshire, like all the North Western counties, remains predominantly Welsh-speaking, but even here some decline is apparent. In 1931 there were 87 per cent Welsh speakers in the county (Census for persons of three years and over), in 1961 75 per cent according to the Census and 78 per cent for over 18s (Cardiganshire survey 1971).[13]

Yn ôl y gyfrol honno, ar adeg yr arolwg, gallai rhwng saith ac wyth person ym mhob deg siarad Cymraeg yn Sir Aberteifi. Serch hynny, mae'r llyfr yn sôn am y ffordd y cuddia'r ffigurau ostyngiad yn nifer y siaradwr uniaith Cymraeg a'r modd y mae siaradwyr uniaith Saesneg yn crynhoi yn yr ardaloedd trefol, sy'n cynrychioli *'…a kind of unwitting 'colonisation' by English speakers'*[14]. Â'r gyfrol yn ei blaen i ddweud:

> In this way the peculiar economy of Cardiganshire – a depopulating countryside with towns attracting English professional workers, and the seaside attracting retired English people – offers a persistent threat to the Welsh language.[15]

Daw'r drafodaeth ar iaith a gwleidyddiaeth Ceredigion i'w therfyn gyda hyn:

> … the language conflict is polarizing, but it is also energizing. The debate, ostensibly about language, is in fact about the whole future of Wales. It is an argument about political philosophy, but its symbolism arouses emotions and it cuts across group interests. It gives an edge, a tension to Cardiganshire politics.[16]

**Mr Cynog Dafis - Yr Athro Saesneg**

Gellir archwilio'r tyndra hwnnw yng ngyrfa gyhoeddus Cynog Dafis, ac fe'i hamlygir hefyd ym mhortread McLucas ohono. Eir ati i drafod hynny gan rhoi sylw i arwyddocâd y flwyddyn 1979, sy'n ymddangos ym mhortread McLucas. Yn ogystal â methiant y refferendwm dros ddatganoli, roedd 1979 yn flwyddyn arwyddocaol i Cynog Dafis; yn y flwyddyn honno, penderfynodd ailymuno â Phlaid Cymru wedi iddo droi ei gefn arni yn y chwedegau er mwyn canolbwyntio ar ei waith ymgyrchu gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg, mudiad a sefydlwyd ym 1962 mewn ymateb i ddarlith apocalyptaidd Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*.[17] Ymunodd Dafis â'r mudiad newydd hwn yn syth gan deimlo mai trwy fudiad gwleidyddol yn unig y gellid achub yr iaith rhag dirywiad. Ar yr un adeg, penderfynodd derfynu ei aelodaeth o Blaid Cymru yn sgil methiant y blaid i ganolbwyntio ar ystyriaethau ieithyddol y Gymraeg. Nod Cymdeithas yr Iaith oedd achub yr iaith trwy ddyrchafu ei statws mewn cymdeithas, ond fel y dywed Dafis yn ei hunangofiant, yr oedd gwneud yr iaith yn 'arf gwleidyddol'[18] lawn cyn bwysiced â hynny.

---

13 Madgwick, P. J., Griffiths, Non, a Walker, Valerie (1973), *The Politics of Rural Wales: A Study of Cardiganshire* (London: Hutchinson & Co.), t. 106.

14 Ibid.

15 Ibid., t. 106.

16 Ibid., t. 121.

17 Sefydlwyd y mudiad yn ystod Ysgol Haf Plaid Cymru ym Mhontarddulais ar ôl cyfarfod a drefnwyd gan grŵp o ddeallusion mewn ystafell ddosbarth ym Mhontardawe, lle gweithiai Dafis fel athro, ei swydd gyntaf ar ôl graddio o Brifysgol Aberystwyth. Yn ôl Dafis – sy'n sôn am y cyfarfod yn ei hunangofiant – Gareth Miles a John Davies â'i hysgogodd.

18 Dafis, Cynog (2005), *Mab y Pregethwr* (Tal-y-bont: Y Lolfa), t. 110.

O'r cychwyn, roedd torcyfraith yn arf angenrheidiol ar gyfer gweithgaredd y mudiad, ac aed ati i gynnal y weithred gyntaf ar Bont Trefechan yn Aberystwyth ym mis Chwefror 1963. Ym 1972, ymron i ddeng mlynedd wedi sefydlu'r mudiad, ysgrifennodd Dafis faniffesto cyntaf Cymdeithas yr Iaith. Wrth ysgrifennu am hanes y mudiad yn y gyfrol *Let's Do Our Best for the Ancient Tongue*, mae Dylan Phillips yn sôn am bwysigrwydd y maniffesto hwnnw fel sail i ymgyrchoedd y saithdegau, yn enwedig y ffordd y cyflwynwyd goruchafiaeth ffactorau cymdeithasol-economaidd a danseiliai'r iaith.[19] Yn y saithdegau cynnar, er enghraifft, canolbwyntiai'r mudiad ar dai haf fel arwydd o anghyfartaledd cymdeithasol yn ogystal ag elfen a achosai erydiad ieithyddol. Mae Phillips yn sôn am y ffordd yr oedd ymgyrchoedd y saithdegau mewn ardaloedd gwledig yn cynnig gwrthwynebiad i ail gartrefi, ynghyd â ffafrio pwerau a fyddai'n caniatáu i'r siroedd newydd yng Nghymru brynu tai gwag a'u gosod i bobl lleol.[20] Serch hynny, ceid is-destun i'r ymgyrchoedd hyn fel y cyfeddyf Dafis yn ei hunangofiant, sef 'pryder am effaith mewnfudiad'.[21] Yn wir, cyflwynwyd 'mewnlifiad teuluoedd di-Gymraeg'[22] fel rhan sylfaenol o argyfwng presennol yr iaith gan Dafis yn ei faniffesto ym 1972.

Yng nghanol y saithdegau, awgrymodd Dafis i Senedd Cymdeithas yr Iaith y dylid ymgyrchu'n agored yn erbyn mewnlifiad. Roedd canolbwyntio'n uniongyrchol ar fewnlifiad fel prif ymgyrch i'r mudiad yn drobwynt iddynt. Y canlyniad oedd cyhoeddi pamffled o dan y teitl *Wynebwn yr Her* yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 1976 yn Aberteifi. Cyfeddyf Dafis iddo deimlo'n betrusgar iawn ynghylch cynnwys a chenadwri'r pamffled er gwaetha'r ffaith i'r senedd gydsynio i'r argymhelliad i'w hargraffu a'u dosbarthu'n eang.[23] Mae Dafis yn trafod *Wynebwn yr Her* mewn cyflwyniad i bamffled a ysgrifennodd yn ddiweddarach ar gyfer y mudiad yn Hydref 1979, sef *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas*, gan gyfeirio at arddull y pamffled blaenorol fel un 'go ddramatig'.[24] Rhydd yr enghraifft ganlynol o arddull ddramatig *Wynebwn yr Her*:

> Mae'r sefyllfa'n argyfyngus. Os na weithredwn yn benderfynol, ac ar frys, y canlyniad fydd marw'r Gymraeg.[25]

Mae'r gosodiad yn gymysg o wefr ac ofn. (Mae'n werth cofio i McLucas ddefnyddio cyfieithiad o'r un ymadrodd fel pennawd i bennod yn y ddogfen *Site Specific Media Education*, sef '*How to Prevent the Death of the Welsh Language*'.)

Yn ei lyfr *Language and Identity*, mae'r awdur John Edwards yn awgrymu bod defnydd o'r fath o eiriau ac ymadroddion yn cynrychioli:

> … the potency of language-as-symbol, the degree to which deep psychological and social wells are being tapped, and the obvious conclusion that most discussions

---

19 Phillips, Dylan (2000), 'The History of the Welsh Language Society 1962-1998', yn Jenkins, Geraint H., a Williams, Mari A. (goln), *Let's Do Our Best for the Ancient Tongue: The Welsh Language in the 20th century* (Cardiff: University of Wales Press), t. 477.

20 Ibid.

21 Dafis, *Mab y Pregethwr*, t. 135.

22 *Maniffesto Cymdeithas yr Iaith* (1972) (Aberystwyth, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg), t. 20.

23 Dafis, *Mab y Pregethwr,* t. 135.

24 Dafis, Cynog (1979), *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg), t. 1.

25 Ibid.

> of what could be termed 'the social life of language' are, in their essence, not really about language at all. They are about identity.[26]

Yn y pamffled *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas,* mae Dafis yn disgrifio'r ymateb i *Wynebwn yr Her* yng nghyd-destun trafodaeth ar hunaniaeth:

> Cadd y daflen ei gyhuddo (sic) o fod yn hiliol – efallai am ei bod yn defnyddio'r gair emosiynol hwnnw(,) Saeson(,) i ddisgrifio'r bobl anghymreig sy'n ymarllwys i'n hardaloedd Cymreicaf ni; hefyd am ei bod yn eu gweld yn hollol agored fel bygythiad difrifol i'n hunaniaeth ac i'n hiaith ni, ac yn sôn am wneud popeth o fewn ein gallu i gyfyngu ar y mewnlifiad yma.[27]

Â Dafis yn ei flaen i ddadlau '… mai'r mewnlifiad Saesneg yw'r mater politicaidd pwysicaf yng Nghymru heddiw – o bell ffordd os ych chi'n barnu bod parhad gwahanrwydd a hunaniaeth Cymru yn fater o bwys, hynny yw'.[28]

Yn ei hunangofiant, *Mab y Pregethwr*, mae Dafis yn sôn am y strategaethau iddo gynnig yn *Wynebwn yr Her* er mwyn amddiffyn yr iaith a'r gymdeithas rhag effeithiau'r mewnlifiad. Ceir dwy wedd i'w gynigion: (a) 'cryfhau blaenoriaeth y Gymraeg yn ein cymdeithas, a sicrhau bod y mewnfudiaid, a'u plant yn arbennig, yn cael eu Cymreigio', a (b) 'cyfyngu ar nifer y Saeson sy'n symud yma i fyw, a gofalu bod modd i'r Cymry aros yma i fyw a gweithio'.[29] Serch hynny, yn ei bamffled *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas*, mae Dafis yn trafod realiti polisïau dysgu Cymraeg yn yr ysgolion:

> Ond fel y gŵyr pawb y mae'r polisi o geisio sicrhau bod plant yn Nyfed a Gwynedd yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd yn fethiant llwyr – o safbwynt y Gymraeg, hynny yw. Dangoswyd hyn yn glir gan yr ystadegau a gyhoeddwyd ym 1977 yn yr adroddiad. Y Gymraeg yn Ysgolion Cynradd Gwynedd, Powys a Dyfed … Yn Nyfed mae 72% o'r plant yn ddi-Gymraeg wrth ddod i'r ysgol a dim ond 5% o'r rheini, ugeinfed rhan, sy'n meistroli'r Gymraeg.[30]

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y pamffled hwnnw, cwblhaodd Dafis astudiaeth ar gyfer gradd uwch ym Mhrifysgol Cymru yn dwyn y teitl, *Teuluoedd Saesneg mewn Ardal Gymraeg: Astudiaeth o Integreiddiad Cymdeithasol, Diwylliannol a Ieithyddol* (1979). Cyhoeddwyd prif gasgliadau ei astudiaeth ym 1986, yn y gyfres *Ysgrifau ar Addysg Gymraeg* a gyhoeddwyd gan Gyfadran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'r papur yn trafod 'methiant trawiadol i gymathu plant mewnfudol'[31] mewn cyd-destun ieithyddol.

Gan fod portread McLucas o Dafis wedi'i greu o fewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg lle yr oedd Dafis yn athro, mae'r gwaith yn ein hatgoffa nad gwleidydd neu ymgyrchydd iaith yn unig oedd Dafis. Yr oedd hefyd yn addysgwr, ac am y rhan fwyaf o'i yrfa broffesiynol, enillai fywoliaeth fel athro uwchradd Saesneg mewn ysgolion yn Sir Aberteifi

---

26 Edwards, John (2009), *Language and Identity* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 63.
27 Dafis, *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas*, t. 1.
28 Ibid.
29 Dafis, *Mab y Pregethwr,* t. 135.
30 Dafis, *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas,* t. i.
31 Dafis, Cynog (1985), *Effeithiau Mewnfudiad ar Iaith Mewn Cymdeithas ac Mewn Ysgol* (Aberystwyth: Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth), t. 7.

neu yn Nyfed. Yn *The Politics of Rural Wales*, cyfeirir at addysgwyr fel, '*the standard-bearers of culture*', a nodir bod y diwylliant, yn naturiol ddigon, yn ddiwylliant Cymreig.[32] Cyfeirir hefyd yn y gyfrol at bolisi recriwtio athrawon ysgolion Awdurdod Addysg Sir Aberteifi. Ar adeg cyhoeddi'r astudiaeth, roedd holl athrawon Sir Aberteifi wedi'u geni yng Nghymru, gyda thros hanner ohonynt wedi'u geni yn Sir Aberteifi ei hun. Er gwaethaf hynny, yn Ionawr 1968 cofnododd adroddiad Gittins, *Addysg Gynradd Cymru*, bryder bod ysgolion yn gorfod newid eu cyfrwng hyfforddiant, a hynny er gwaethaf y ffaith bod nifer y plant di-Gymraeg yn llai na nifer y plant Cymraeg eu hiaith. Yng ngolau hyn, ceir yn y gyfrol ddehongliad rhagweledol o sefyllfa Dafis:

> Under diverse pressures the schoolteacher remains strongly rooted in Welsh culture, but sensitive to, and compelled to adjust to tensions and pressures which threaten change. In this and in other ways the teachers differ from the ministers.[33]




***Ffigwr 2: 'Uwch, uwch ei rwysg…' o gasgliad Cliff McLucas, LlGC***

Mae ysgrif Dafis, *Effeithiau Mewnfudiad ar Iaith mewn Cymdeithas ac mewn Ysgol*, yn mynd rhagddi i drafod gwaith ambell gymdeithasegydd iaith ar y cymhellion i feistroli ail iaith, a hynny yng nghyd destun tuedd mewnfudwyr o Loegr i beidio â dysgu'r Gymraeg. Cyfeiria Dafis at waith W. E. Lambert, *Social and Psychological Aspects of Bilingualism*, sy'n nodi'r ddau brif gymhelliad i feistroli ail iaith; y cymhelliad offerynnol a'r cymhelliad integreiddiol.[34] Mae'r cymhellion offerynnol yn ymwneud â dibenion ymarferol, fel dyrchafiad galwedigaethol. Yn ôl ymchwil Dafis, er bod rhai rhieni wedi nodi manteision

---

32 Madgwick, Griffiths, a Walker, t. 111.

33 Ibid., t. 114.

34 Dafis, *Effeithiau Mewnfudiad ar Iaith Mewn Cymdeithas ac Mewn Ysgol*, t. 15.

economaidd fel rheswm dros ddysgu Cymraeg, 'mae'n go sicr nad yw'r manteision hynny'n ddigon i gyfiawnhau'r ymdrech sylweddol iawn a fyddai'n angenrheidiol i'w dysgu'.[35] Ar y llaw arall, mae'r cymhelliad integreiddiol yn cael ei weld mewn rhywun sy'n awyddus i ddysgu rhagor am gymuned ddiwylliannol arall neu i ddod yn aelod o grŵp arall. Yn ôl Lambert, mae'r cymhelliad integreiddiol yn dibynnu ar ymagwedd gadarnhaol tuag at y grŵp arall hwnnw.[36]

**Safle Penodol Addysg Cyfryngau**

Roedd cais McLucas i dreulio cyfnod fel artist preswyl yn ganlyniad uniongyrchol i'w waith fel aelod o Grŵp Cyfryngau Aberystwyth. Yn ei gais mae'n nodi:

> I have long felt that the practical 'productions' based work as well as the theoretical or critical work of the group could enrich and assist the efforts of the Authority to develop Media Studies in their schools.[37]

Wrth feddwl am ddyfodiad McLucas i Geredigion yn y saithdegau cynnar, ynghyd â datblygiad ei ymarfer celfyddydol yn yr wythdegau, dylid ystyried ei weithgaredd gyda grwpiau fel Cymdeithas Cyfryngau Ceredigion ac Ysgol Dyffryn Teifi fel ymateb i ddadleuon cyfoes ynghylch cyflwr yr iaith Gymraeg ynghyd ag effaith mewnlifiad ar hunaniaeth Gymraeg. Ei ymateb i'r sefyllfa hon oedd ceisio gwahanu syniadau o hunaniaeth hanfodol Gymraeg oddi wrth yr iaith Gymraeg er mwyn creu gofod i'w fodolaeth amgen ei hun yng nghyd-destun y gymdeithas Gymraeg. Dyma strategaeth gymysg McLucas a amlygir ymhellach yn y ddogfen *Site Specific Media Education.*

Yn y ddogfen honno, mae McLucas yn datgelu ansicrwydd ynghylch natur wleidyddol ambell ddadl am arwyddocâd yr iaith Gymraeg wrth iddo gynnig datgysylltu'r iaith oddi wrth ei chyd-destun diwylliannol:

> I would feel extremely uncertain about any proposals to preserve a 'way of life', to preserve 'the Welsh culture' to prevent the 'disappearance of traditional ways of life', and so on. Directing all those issues through the simple issue of the language's existence, however, allows for a critical address in all directions … I am suggesting a 'depoliticisation' of the language – a clear separation of the language and its cultural vehicles as they may exist at this point.[38]

Mae syniadaeth McLucas, a fynegir uchod, ynglŷn â dadwleidyddoli'r iaith yn mynd yn groes i'w ddatganiad yn ei ddogfen flaenorol ar gyfer Pwyllgor Ffilm a Fideo Cyngor y Celfyddydau (1986), lle yr ystyria'r penderfyniad i ddysgu Cymraeg yn benderfyniad gwleidyddol. Yn y cyd-destun hwnnw, cynigia bod Cymreictod gyfystyr â chyflwr gwleidyddol o fodolaeth, pe hoffir hynny ai peidio.[39] Mewn gwirionedd, mae'n amhosib i McLucas, y mewnfudwr a ddysgodd yr iaith, ddadwleidyddoli'r iaith. Yn hytrach, cynigir bod McLucas yn dadlau dros ddadwleidyddoli syniadau traddodiadol o hunaniaeth

Gymraeg sydd ynghlwm wrth y syniad o gadw 'ffordd o fyw', er mwyn iddo ddefnyddio'r iaith yn rhydd o'r cyd-destun hwnnw.

---

35 Ibid.
36 Ibid.
37 Casgliad Cliff McLucas, RR1/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
38 Casgliad Cliff McLucas, RM4/2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
39 Ibid., RM2/1.




***Ffigwr 3: 'Mr Stephen Evans' o gasgliad Cliff McLucas, LlGC***

Cawn awgrym o ddiffiniad McLucas o 'ffordd o fyw' trwy gyfrwng sylwadau awduron *The Politics of Rural Wales* wrth iddynt drafod problemau mewn perthynas â bodolaeth siaradwyr uniaith Saesneg o fewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, nid yn sgil eu methiant i siarad y iaith ond oherwydd yr ymddengys eu bod yn gwrthod gwerthoedd diwylliannol a chenedlaethol sy'n agos at galon llawer o siaradwyr Cymraeg.[40] Esbonia'r awduron y gwerthoedd diwylliannol hyn yng nghyd-destun 'ffordd o fyw':

> This culture is based on one element special to Wales, the language, and two elements common to many other areas, chapel-going and the countryside (non-conformity and rurality). It is usual to think of this culture as a 'way of life' … [41]

Serch hynny, mae Madgwick, Griffiths a Walker yn cwestiynu'r 'ffordd o fyw' hwnnw:

> This term perhaps implies a pervasiveness and salience which is lacking. For many hours of each day the countrymen of Cardiganshire live lives not dissimilar from those of Suffolk or Dorset. On a Saturday evening the Cardi farmer is quite likely to be watching *Match of the Day*, not singing in the chapel hall. But on Sundays the Welsh way of life is at its strongest.[42]

Yn ei ddogfen *Site Specific Media Education*, awgrymir bod McLucas yn ymwybodol o'r ddeuoliaeth honno:

---

[40] Madgwick, Griffiths, a Walker, t. 105.
[41] Ibid., t. 90.
[42] Ibid.

> If in making a case for the language, one finds oneself making a case for a 'way of life', which is perceived to be the carrier of that language (and the only one, at that) and further, an 'authentic' liver of that life … we are on a slippery slope.[43]

Atega, 'It may be that a hybrid of attitudes will need to be put together – an internally irreconcilable amalgam of feelings, ideas and ambitions.'[44] Â yn ei flaen:

> Within a Welsh language context many conscious attitudes would appear to move in an opposite direction – towards a tendency to seek the authentic or the 'pure'. Unconsciously (and more pragmatically) Welsh speakers are ironically more practiced in the art of living a hybrid than, for instance, the English – whose cultural baggage is largely invisible to them (us), thereby allowing a less considered attitude to their (our) cultural experiences.

Yn ei erthygl 'The Whole and the Sum of its Parts', mae'r awdur David Samuels yn dynodi agwedd gymysg fel cysyniad dadansoddol sy'n ein galluogi i ddeall cyfoeth a dwysedd profiad lleol radical.[45] Aiff Samuels rhagddo i ddatgan bod:

> . . . the everyday circulation of cultural forms is accounted for by appealing not necessarily to a shared heritage or culture, but rather, to a shared history of engagement and encounter.[46]

Yng ngolau'r uchod, cynigir bod delwedd McLucas o Cynog Dafis yn cynrychioli enghraifft o weithgaredd gymysg McLucas wrth iddo archwilio ei etifeddiaeth ddiwylliannol ei hun fel mewnfudwr Prydeinig yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg. Mae'r ddelwedd yn dynodi sut yr ystyria McLucas ei sefyllfa ei hun, y mewnfudwr Prydeinig a enillai fywoliaeth yn yr achos hwn fel athro celf preswyl mewn sefydliad lle defnyddir y Gymraeg fel prif gyfrwng. Trwy gyfrwng ei bortread dehongliadol o Dafis, mae McLucas yn cwestiynu pa mor gymwys ydyw i weithio mewn sefydliad o'r fath, a hynny yng ngolau dadleuon blaenorol Dafis ynglŷn ag effaith mewnlifiad ar gymunedau Cymraeg (a enghreifftiwyd gan ei waith ymgyrchu gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Erys un elfen arwyddocaol o bortread McLucas o Dafis heb ei thrafod. Islaw'r rhes o luniau Margaret Thatcher, ceir llinell arall o eiriau sy'n ffurfio'r frawddeg; 'Dwedir ym mhlygion ei gwisg y gwelw … y … fol'. Cuddir y geiriau olaf y tu ôl i'r cadeiriau du yn y darlun. Gellir dadlau felly mai 'diafol' yw gair olaf y frawddeg ('Dwedir ym mhlygion ei gwisg y gwelwn y diafol'), ac awgrymir yn sgil hynny berthynas rhwng delwedd McLucas a'r llun '*Salem*' (1908) gan Sidney Curnow Vosper.

### Ffurfio *Salem* trwy ymarfer cymysg (*hybrid*)

Mae 'Salem' yn darlunio menyw o'r enw Siân Owen yn sefyll mewn capel yng ngogledd-orllewin Cymru ymysg yr aelodau eraill, wedi'i gwisgo mewn gwisg Gymreig. Mae ei siôl o batrwm persli yn disgyn dros ei hysgwydd chwith, ac mae'n dal llyfr emynau yn ei llaw

43 Casgliad Cliff McLucas, RM4/2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

44 Ibid.

45 Samuels, David (1999), 'The Whole and the Sum of the Parts, or, How Cookie and the Cupcakes Told the Story of Apache History in San Carlos', *The Journal of American Folklore*, 112, 466.

46 Ibid., 469.

chwith. Dywed rhai bod wyneb y diafol i'w weld ym mhlygion ei siôl, er y gwadai Vosper unrhyw fwriad i ddangos y diafol yn y ddelwedd. Arlunydd o Ddyfnaint oedd Vosper, ond priododd Gymraes o Ferthyr Tudful o'r enw Constance James, ac yn ôl D. Ben Rees, 'daeth i weld Cymru trwy ei llygaid hi'.[47] Mae'r dehongliadau o 'Salem' yn tueddu i ganolbwyntio ar gymeriad Siân Owen fel cynrychiolaeth o burdeb a Chymreictod. Cyfeiria Peter Lord at ddyddiad y llun er mwyn cyfiawnhau darlleniad o'r math hwn:

> The picture was painted only four years after the great 1904 Revival, and is redolent of the virtues of Nonconformism – pious, unpretentious, and built around the centrality of the Word, symbolized, however unintentionally, by the hymn book in Siân Owen's hand at the heart of the composition.[48]

Ymhelaetha Dyfed Evans ar gyd-destun hanesyddol y llun:

> Mae prif gymeriad y darlun, sef yr hen wraig yn ei siôl a chanddi lyfr emynau, yn cynrychioli'r Fam yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Daeth Cymru allan o'r ganrif honno yn genedl a newidiasai ei golygon a'i hagwedd feddwl drwy'r cyffroadau ysbrydol a'r taerineb crefyddol a brofasai.[49]

Mae 'Salem', fel portread McLucas o Dafis, yn cynrychioli math o newid cymdeithasol. Dynodir diwygiad crefyddol yn achos 'Salem' a mewnlifiad yn achos portread McLucas.

Hoffwn gynnig dehongliad arall o'r gynrychiolaeth o burdeb mewn perthynas â 'Salem', ynghyd â'r ffordd y'i defnyddir gan McLucas yn ei bortread. Eir ati i wneud hynny trwy gyfeirio at gyfrol Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*. Dadleua Brooks bod y cysyniad o burdeb yn ganolog i ieithyddiaeth a beirniadaeth lenyddol a ddatblygodd yng Nghymru fel ymateb i'r Oleuedigaeth yn Ewrop, ac â rhagddo i ofyn; beth yw arwyddocâd hyn i hanes deallusol Cymru yn gyffredinol?[50] Mae Brooks yn ymdrin â gwaith Hywel Teifi Edwards, sy'n cyflwyno purdeb y Gymru ysbrydol fel rheswm dros y lleihad yn y defnydd o'r Gymraeg o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, a hynny oherwydd i'r cysyniad deallusol o'r Gymru ysbrydol alltudio'r Gymraeg o fyd masnach a phroffidioldeb ymarferol. Mae Brooks yn cynnig mai casgliad pwysicaf Hywel Teifi Edwards yw bod syniadau goleuedig Cymraeg fel purdeb, buchedd, glanweithdra a threfn yn cynrychioli ochr arall y geiniog, fel petai, i syniadau ymddangosiadol 'an-oleuedig' megis hiliaeth, anoddefgarwch ethnig, gormes diwylliannol a thranc ieithyddol. Dadleua i'r moesoldeb hiliol hwnnw gael ei gyfreithloni gan fyth y 'cwm soniarus', myth o fro Edenaidd Gymraeg a anrheithiwyd gan ddyfodiad diwydiant a mewnfudwyr.[51]

Dyfynna Brooks o erthygl Edwards, sef 'Lloi Pasgedig Smithfield', a ymddangosodd yn *Golwg* yn 1990:

> Mae hi bron yn ddiwedd yr ugeinfed ganrif ac y mae'r ymagweddu amddiffynnol, ffals at burdeb honedig y Gymraeg yn para'n fyw, yn ddigon byw i brysuro'i thranc yn y ganrif nesa.[52]

---

47 Rees, D. Ben (2011), 'Salem a Sebon: alltudiaeth Sian Owen Ty'n-y-fawnog', *Barn*, Gorffennaf/Awst, 63.

48 Lord, Peter (1991), 'A National Icon', yn Williams, Tal (gol.), *Salem: Y Llun a'r Llan* (Llandybie: Gwasg Dinefwr), t. 19.

49 Evans, Dyfed (1991), 'Dylanwad Salem', yn ibid., tt. 40-1.

50 Brooks, Simon (2004), *O Dan Lygaid y Gestapo* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 30.

51 Ibid., t. 119.

52 Edwards, Hywel Teifi (1990), 'Lloi Pasgedig Smithfield', *Golwg*, 17 (2), 11 Ionawr, 22.

***Ffigwr 4: 'Salem' gan Sidney Curnow Vosper (Trwy garedigrwydd Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, Oriel Gelf Arglwyddes Lever)***



Yng ngolau'r uchod, gellir dehongli cyfeiriad McLucas at ddelwedd 'Salem' fel ffordd o gwestiynu safbwynt yr ymgyrchydd iaith ar hunaniaeth Gymreig ynghyd â bygythiad y mewnfudwr i'r 'fro Edenaidd Gymraeg'. Ym mhortread McLucas, gwelir ym mhlygion siwmper Ysgol Dyffryn Teifi – sy'n amgylchynu Dafis i ffurfio'r ddraig Goch – y geiriau '*made in England*' ar y label oddi mewn iddi. Mae'r siwmper ysgol, yn union fel McLucas ei hun, yn bont i etifeddiaeth ddiwylliannol gwahanol sy'n cael ei gymharu – trwy gyfeiriad McLucas at lun 'Salem' – â'r diafol sydd i'w weld gan rai ym mhlygion siôl Siân Owen.

**Ôl-nodyn: a oes heddwch?**

Mae D. Ben Rees yn gorffen ei erthygl am 'Salem' o Awst 2011 drwy gyfeirio nid at gymeriad Siân Owen a'r dadansoddiadau a gynigir iddi, ond at gwestiwn arall: '… sut y gallwn warchod capel Salem a agorwyd ym 1860? Pum aelod sydd ar lyfrau Salem bellach.'[53] Mae geiriau Rees yn awgrymu nad presenoldeb y mewnfudwr ond diffyg adnoddau dynol sydd i'w weld fel yr her ddiwylliannol mwyaf i ddyfodol yr iaith, a mynegir pryder tebyg yng ngwaith ysgrifenedig diweddarach Cynog Dafis. Ym 1988, flwyddyn ar ôl i McLucas ymgymryd â'i gyfnod preswyl yn Ysgol Dyffryn Teifi, cyhoeddwyd erthygl gan Dafis yn y cylchgrawn *Radical Wales* a seiliwyd ar bapur polisi a ysgrifennodd ar gyfer Plaid Cymru. Yn yr erthygl, '*Turning a crisis into an opportunity: in-migration and the future of Wales*', datgela Dafis farn wahanol ar fewnlifiad i'r hyn a leisiwyd ganddo ym mhamffledi Cymdeithas yr Iaith. Yn hytrach na chanolbwyntio ar erydiad iaith a hunaniaeth, geilw am adnabyddiaeth o fanteision y mewnlifiad i ardaloedd gwledig mewn cyd-destun economaidd. Mae'r erthygl yn cynnwys yr ystadegau canlynol:

> Btw. 1971 and 1980 there was a net increase in population of some 18,000 in Dyfed. In the six years 1981-1986 there was a net in-migration of 32,000 to the county, a figure equal to 10 percent of the county's population.[54]

---

53 Rees, 'Salem a Sebon: alltudiaeth Sian Owen Ty'n-y-fawnog', t. 64.

54 Dafis, Cynog (1988), 'Turning a crisis into an opportunity: in-migration and the future of Wales (based on a Plaid Cymru policy paper by Cynog Dafis)', *Radical Wales*, Hydref, 19, 4.

Serch hynny, noda Dafis:

> The inflow of new people contributes towards manifesting vital services and the fabric of rural society in areas where de-population has had a devastating effect in the past. The spending power of inmigrants injects money into the local economy.[55]

Â yn ei flaen i gyfeirio at y sgiliau a'r agweddau y medda mewnfudwyr arnynt na feddir yn aml gan y boblogaeth frodorol, ac a all arwain at sefydlu mentrau busnes sy'n cyflogi pobl lleol.

Ym 1999, roedd McLucas yn gweithio ar fenter busnes o'r fath , sef '*An outline proposal for the development of small scale digital industries in West Wales*'.[56] Yn y ddogfen honno, mae'n dadlau bod y rhanbarth (yn y rhan fwyaf o ffyrdd ymarferol a materol) yn crebachu, gan gyfeirio at ffactorau economaidd megis allfudo, diffyg hyfforddiant, diffyg seilwaith, diffyg gwaith, diffyg cartrefi fforddiadwy a diffyg diwydiant. Mae'n cyfeirio at addysg uwch fel rhywbeth sy'n arwain at allfudo:

> This is a loss of cultural and linguistic 'capital' or 'seedcorn', young people go, old people move in – Ceredigion becomes a place to die in.[57]

Fodd bynnag, mae McLucas yn cyfeirio at ambell rinwedd i'r ardal gan gyfeirio bron yn gyfan gwbl at yr iaith Gymraeg fel math o gyfalaf diwyllianol sydd yn anaml yn cael ei gyflwyno fel,

> the Welsh language is amongst the oldest in Europe – but we never mobilise this as 'cultural capital'".[58]

Serch hynny, barna'r pwyslais a roddir ar gadwraeth ddiwylliannol yng nghyd-destun yr iaith yn hytrach nag entrepreneuriaeth gan ddatgan:

> I want to see small creative businesses set up by young Welsh people winning a commission from MTV or NIKE or Virgin Airways. In other words, vigorous activity like any other.[59]

Dyna oedd gweledigaeth McLucas ar gyfer ei fenter ei hun, y cyfeiria ati fel y *West Wales Digital Media Consortium*.[60] Ar adeg llunio'r ddogfen, roedd eisoes wedi derbyn cyllid oddi wrth gwmni cyfrifiaduron Apple, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Menter Gymunedol Cymru.

Uchelgais y consortiwm yn ôl y cynllun busnes oedd sefydlu diwydiannau creadigol digidol ar raddfa fach yn y rhanbarth dros gyfnod o ddeng mlynedd, gan gyfuno rhaglenni gwaith mewn partneriaeth ag amryw o asiantaethau masnachol, cymdeithasol ac addysgol (yn cynnwys Theatr Felinfach, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a chwmni theatr Brith Gof) â diwydiannau mwyaf yr ardal, fel ffermio a thwristiaeth. O ganlyniad i fodolaeth y fath gonsortiwm, yn ôl McLucas:

---

55 Ibid.
56 Casgliad Cliff McLucas, RG2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
57 Ibid.
58 Ibid.
59 Ibid.
60 Ibid.

> There should be no reason to move away … It should be possible to develop a personal 'ladder' – an infrastructure of support – for each individual with flair and talent and to ensure that they remain in the county, and when they establish successful businesses in the towns and villages where they grew up, they will begin to feedback into both the economic and cultural life of the region.[61]

Terfyna McLucas ei ddisgrifiad o'r prosiect gan gyfeirio ato fel cyfleuster cymysg:

> As soon as we place a hybrid facility such as this within its regional context, then it can begin to define a very particular identity for itself – one that is built positively and radically around the very specific notions of culture and identity within the region. The potential for such a rooted centre is far greater in Lampeter than it is, for instance, in Cardiff.[62]

Mae delwedd wreiddiol 'Salem' yn awr yn ffurfio rhan o gasgliad yr Arglwydd Leverhulme yn Port Sunlight ger Lerpwl, pentref a adeiladwyd gan Leverhulme ar gyfer ei weithwyr yn y ffatri sebon. Fel rhan o'i ymrwymiad i iechyd a lles ei weithwyr, aeth ati hefyd i ddarparu oriel. Gellir datgan bod chwedl Port Sunlight a Lord Leverhulme – y cyflogwr uchelwrol – yn atgoffeb o'r syniad a ddatblygodd McLucas ar ddiwedd ei fywyd o sefydlu ffatri gynhyrchu ar gyfer diwydiannau creadigol digidol yn Nyffryn Aeron.

Mae Kathryn Cooper yn gorffen ei hastudiaeth ar allfudo o Geredigion yn y ddeunawfed ganrif drwy fyfyrio ar bwysigrwydd allfudo yng nghyd-destun bywyd cyhoeddus ac economaidd yr oes sydd ohoni:

> Rural out-migration … has been, and still is, a subject of wide European importance, and in much of Europe a rural exodus is still being experienced today. The issue of so-called 'marginal' regions is one of major public and economic concern. Cardiganshire may be considered one of these regions.[63]

Ac yntau'n ysgrifennu maniffesto Cymdeithas yr Iaith (1972) ganrif yn ddiweddarach, nododd Cynog Dafis:

> Erbyn hyn fe drodd proses gyfarwydd diboblogi yn broses o gyfnewid poblogaeth.[64]

Fodd bynnag, mae agwedd ddiweddarach Cynog Dafis tuag at fewnfudwyr yn ei ddogfen bolisi ar gyfer Plaid Cymru ym 1988 yn cynnig cyfiawnhad i ryw raddau i weledigaeth McLucas a'i agwedd tuag at gyflwr economaidd a diwylliannol ei ardal fabwysiedig. Wrth drafod Maniffesto cyntaf Cymdeithas yr Iaith yn ei hunangofiant, mae Dafis yn nodi:

> Rwy'n credu i Faniffesto Cymdeithas yr Iaith roi'r syniad o gynllunio adfywiad y Gymraeg mewn ystyr strategol ar yr agenda am y tro cyntaf"[65].

Mae'r gwaith a grëodd McLucas yn ystod ei gyfnod preswyl a'i waith ehangach (megis ei gynlluniau ar gyfer y Consortiwm Cyfryngau Digidol) yn awgrymu bod gan artistiaid a

---

[61] Ibid.
[62] Ibid.
[63] Cooper, Kathryn J. (2011), *Exodus from Cardiganshire: Rural-urban migration in Victorian Britain* (Cardiff: University of Wales Press), t. 209.
[64] Dafis, *Maniffesto Cymdeithas yr Iaith*, t. 20.
[65] Dafis, *Mab y Pregethwr*, t. 132.

chynhyrchwyr diwylliannol ran bwysig i'w chwarae yn y broses strategol honno hefyd. Yn sgil ymwybyddiaeth McLucas o faniffesto Cymdeithas yr Iaith ac ymgyrchoedd y saithdegau, datblygodd ei faniffesto ei hun mewn perthynas â'r flaenoriaeth a roddwyd i'r Gymraeg yn ei waith trwy gyfrwng ei ymarfer cymysg, a oedd yn gysylltiedig â'r modd y symudodd i Geredigion yn y saithdegau cynnar. Gwelwyd ffurfio'r agwedd gymysg honno yn ei bortread o Cynog Dafis, portread sy'n tynnu ar eicon cenedlaethol 'Salem' er mwyn creu eicon cenedlaethol newydd.

**Llyfryddiaeth**

Adroddiad ar gyfer yr Awdurdod Addysg, Casgliad Cliff McLucas, RR1/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

CV a luniwyd flwyddyn cyn marwolaeth Cliff McLucas, E2/4, Casgliad Cliff McLucas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Notes for a discussion document to be prepared for the Welsh Arts Council's Film and Video Panel, Casgliad Cliff McLucas, RM2/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Site Specific Media Education, RM4/2, Casgliad Cliff McLucas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

An outline proposal for the development of small scale digital industries in West Wales, Casgliad Cliff McLucas, RG2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Brooks, Simon (2004), *O Dan Lygaid y Gestapo* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004).

Cooper, Kathryn J. (2011), *Exodus from Cardiganshire: Rural-urban migration in Victorian Britain* (Cardiff: University of Wales Press).

Cymdeithas yr Iaith (1972), *Maniffesto* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Dafis, Cynog (1985), *Effeithiau Mewnfudiad ar Iaith Mewn Cymdeithas ac Mewn Ysgol* (Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth).

Dafis, Cynog (2005), *Mab y Pregethwr* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

Dafis, Cynog (1979), *Mewnlifiad, Iaith a Chymdeithas* (Aberystwyth: Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg).

Dafis, Cynog (1988), 'Turning a crisis into an opportunity: in-migration and the future of Wales (based on a Plaid Cymru policy paper by Cynog Dafis)', *Radical Wales*, Hydref, 19, 4-8.

Edwards, Hywel Teifi (1990), 'Lloi Pasgedig Smithfield', *Golwg*, 2 (17), 11 Ionawr, 22.

Edwards, John (2009), *Language and Identity* (Cambridge: Cambridge University Press).

Evans, Dyfed (1991), 'Dylanwad Salem', yn Williams, Tal (gol.), *Salem: Y Llun a'r Llan* (Llandybie: Gwasg Dinefwr), tt. 40-1.

Fowler, Carwyn, a Jones, Rhys (2008), 'Fractured Intellectuals and the Nation: Cynog Dafis and Welsh Nationalism', *Contemporary Wales*, 21, 130-49.

Lord, Peter (1991), 'A National Icon', yn Williams, Tal (gol.), *Salem: Y Llun a'r Llan* (Llandybie: Wasg Dinefwr), tt. 19-20.

Madgwick, P. J., Griffiths, Non, a Walker, Valerie (1973), *The Politics of Rural Wales: A Study of Cardiganshire* (London: Hutchinson & Co.).

Phillips, Dylan (2000), 'The History of the Welsh Language Society 1962-1998', yn Jenkins, Geraint H., a Williams, Mari A., *Let's Do Our Best for the Ancient Tongue: The Welsh Language in the 20th century* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 463-90.

Rees, D. Ben (2011), 'Salem a Sebon: alltudiaeth Sian Owen Ty'n-y-fawnog', *Barn*, Gorffennaf/Awst, 63-5.

Samuels, David (1999), 'The Whole and the Sum of the Parts, or, How Cookie and the Cupcakes Told the Story of Apache History in San Carlos', *The Journal of American Folklore*, 112 (445), 464-74.

Sel Williams

# Cloriannu Cymdeithasiaeth: Syniadaeth wleidyddol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd **Yr Athro Ioan Williams**

# Cloriannu Cymdeithasiaeth: Syniadaeth wleidyddol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

*Sel Williams*

Yn yr erthygl hon, edrychir ar gymdeithasiaeth, sef set o syniadau gwleidyddol a ddatblygwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg (CYIG), sy'n codi o brofiad ymgyrchu'r gymdeithas. Prif amcan yr erthygl yw cloriannu cymdeithasiaeth, ac ystyrir y syniadaeth a'r berthynas rhwng y theori ac ymarfer gwleidyddol. Mae cymuned yn greiddiol i athroniaeth cymdeithasiaeth, ac yn yr erthygl hon ceisir ateb y cwestiwn; 'beth yw rôl cymuned a pherthnasedd gwleidyddol cymdeithasiaeth heddiw?' Dechreuir drwy edrych ar syniadaeth cymdeithasiaeth fel y datblygodd ochr yn ochr â phrofiad gweithredu CYIG. Yna edrychir ar y gymuned yng ngwleidyddiaeth Cymru fodern, ynghyd â natur a rôl datblygu cymunedol heddiw. Mae hyn yn gosod sail i'r drafodaeth sy'n dilyn ar gloriannu cymdeithasiaeth.

Ers cychwyn y 1960au, bu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ymgyrchu ym meysydd statws yr iaith, darlledu, addysg, y drefn lywodraethol, tai, cynllunio a'r economi. Rhoddwyd cryn sylw i'r dulliau torcyfraith, di-drais o weithredu, ond rhan yn unig fu hyn o weithgaredd y Gymdeithas. Dengys llyfr Dylan Phillips, *Trwy Ddulliau Chwyldro: Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1992* (Phillips, 1998), y modd y datblygwyd syniadaeth yn dwyn yr enw 'cymdeithasiaeth' law yn llaw â gweithredu gwleidyddol.

Nid oes modd cyfieithu'r term 'cymdeithasiaeth' i'r Saesneg yn foddhaol. Ceir bellach gynifer o wahanol ystyron i eiriau megis '*community-ism*', '*communitarianism*', '*syndicalism*', '*anarcho-syndicalism*', '*socialism*' a '*communism*', fel y cedwir at y gair Cymraeg 'cymdeithasiaeth' yng nghyhoeddiadau Saesneg CYIG. Nid yw'r cyfieithiad llythrennol '*society-ism*' fawr o help chwaith. Esbonia Raymond Williams yn *Keywords* (Williams, 1976) y modd y newidiodd ystyr y gair '*society*' cyn ac yn enwedig yn ystod cyfnod cynnar cyfalafiaeth. Ar un adeg, golygai rywbeth tebycach i'r hyn a olygir gan y gair '*community*' heddiw. Dim ond yn ddiweddar yr ymddangosodd y gair 'cymuned' yn y Gymraeg; nid oes sôn amdano yng ngeiriaduron y 1950au. Cyfeirid yn aml at berson a oedd yn gaffaeliad i gymdeithas yn hytrach na chymuned, ac mae'n arwyddocaol fod y gair 'cymdeithas' wedi cadw ei naws 'gymunedol' yn y Gymraeg yn hirach nag yn y Saesneg. Yn Saesneg, '*community*' ddaw agosaf at gyfleu'r defnydd hwn o'r gair 'cymdeithas'. Mae'r gwahaniaeth yn natblygiad ac yn ystyr y termau 'cymuned' a '*community*' yn adlewyrchiad o wahaniaethau hanesyddol pwysig. I raddau, gellir esbonio'r newid yn ystyr y gair '*society*' yng nghyd-destun datblygiad cenedl-wladwriaeth Lloegr/Prydain a'r angen am air a chysyniad i ddisgifio'r bobl fel cenedl ar lun gwladwriaeth gyfalafol yn hytrach na deiliaid ffiwdal. Tra gwahanol fu hanes cenedl diwladwriaeth y Cymry. Cynyddodd yr angen i wahaniaethu rhwng cymdeithas a chymuned yn hwyrach yng Nghymru, a hynny gyda datblygiad ei hegin sefydliadau gwladwriaethol ei hun. Er bod yr ymdriniaeth hon o dermau sylfaenol yn gorsymleiddio'r

sefyllfa, mae gwerthfawrogiad cyffredinol o ystyron ac arwyddocâd gwleidyddol cymuned a chenedl yn allweddol i faes trafod yr erthygl hon.

Wrth ymdrin â chymdeithasiaeth, eir ati i wneud y canlynol:

1. Amlinellir syniadaeth cymdeithasiaeth fel y datblygodd drwy brofiad CYIG.

2. Cymerir bras olwg ar le cymuned yn nhraddodiad gwleidyddol Cymru yn y cyfnod modern.

3. Edrychir yn feirniadol ar le cymuned a datblygu cymunedol yng ngwleidyddiaeth heddiw, ynghyd â'r berthynas rhwng cymdeithasiaeth a theori ac ymarfer datblygu cymunedol.

4. Cychwynnir trafodaeth ar gloriannu cymdeithasiaeth.

## 1. Cymdeithasiaeth CYIG

I esbonio cymdeithasiaeth, defnyddir tair ffynhonnell yn bennaf; pamffled a ysgrifennodd Ffred Ffransis yn ystod ei gyfnod yn y carchar ym 1986, sef *Cymdeithasiaeth: yr ail ffrynt* (Ffransis, 1986); maniffestos gwleidyddol CYIG (1982, 1992, 2002, 2004) a gyhoeddwyd fwy neu lai bob degawd, ynghyd â llyfr Dylan Phillips (Phillips, 1998) ar hanes CYIG (yn enwedig y drydedd bennod ar syniadaeth CYIG sy'n dwyn y teitl arwyddocaol, "`Tua'r Gorllewin'' neu ``Gymru Sosialaidd'").

Roedd ymgyrchoedd cynharaf CYIG yn ymwneud ag ennill statws swyddogol i'r Gymraeg, ac mae ymgyrchoedd o'r math hwn yn parhau, e.e. Deddf Iaith, Corff Datblygu Addysg Gymraeg, ynghyd â'r ymgyrch i berswadio cwmnïau mawrion megis *Orange* a *Marks & Spencer* i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae ymgyrchoedd eraill wedi'u hanelu at greu'r amodau a'r math o drefn faterol a all sicrhau bywyd i gymunedau Cymreig, e.e. ymgyrchoedd ynghylch tai, cynllunio, ynghyd â gwahanol agweddau ar yr economi megis yr ymgyrch bresennol, cymunedau cynaliadwy (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 2009). Mae'n glir ym Maniffesto 1982 bod CYIG, erbyn hynny, yn gweld yr angen nid yn unig am fudiad iaith ymosodol, ond hefyd am ail ffrynt o fudiadau blaengar a fydd yn amddiffyn cymunedau, gyda'r Gymdeithas yn rhan o'r ail ffrynt hwnnw. Gwelwyd cymdeithasiaeth yn datblygu yn y cyd-destun hwn o ymgyrchu a chynghreirio i newid y drefn faterol.

Dywed Maniffesto 1982 bod CYIG yn perthyn i'r gwersyll sosialaidd, ond nad oedd am wisgo bathodyn sosialaeth fel y cyfryw gan fod y gair wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio cymaint o fudiadau ac athrawiaethau gwahanol. Gwell gan y Gymdeithas weld cymdeithasiaeth fel cyfraniad unigryw i sosialaeth fyd-eang (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1982). Mae cymdeithasiaeth yn syniadaeth esblygol sy'n deillio o brofiad bywyd yng Nghymru ac o ymgyrchu am newid. Cymharer hyn gyda phrofiad cymaint o fudiadau'r Chwith gwleidyddol, megis Cymru Goch yn y 1970au a lliaws o sectau sosialaidd Prydeinig, a gychwynasant trwy lunio dadansoddiadau a chynlluniau delfrydol ar gyfer y dyfodol a safent am y pegwn â realiti'r presennol i'r fath raddau fel na ellid gwneud mwy na rhyddhau datganiadau chwyldroadol di-baid. Gellir anelu'r un fath o feirniadaeth at gynlluniau mwy diweddar, fel rhaglen gynhwysfawr y *New Economics Foundation*, *The Great Transition* (2009), ar gyfer trawsnewid yr economi a'r gymdeithas. Er ei fod yn llawn

syniadau clodwiw, nid yw'n delio'n realistig â natur grym a newid gwleidyddol. Cwbl groes i hynny fu hanes CYIG, lle'r esblygodd syniadaeth cymdeithasiaeth o brofiad ymgyrchu. Yn ôl CYIG, drwy gychwyn wrth ei thraed gyda realiti'r sefyllfa dai, yr economi ac ati y mae modd gwarchod rhag peryglon dogma a chred hunangyfiawn, ac y mae hyn yn gyson â'r dull di-drais o weithredu.

Mae cymdeithasiaeth yn syniadaeth sy'n esblygu o ddilechdid ymgyrchu a dehongli, ac y mae'n gosod cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gweithredu gwleidyddol. Nodir prif bwyntiau'r cyfeiriad hwn isod:

a) Ffenomen gymdeithasol yw iaith ac ni fydd y Gymraeg fyw oni ddiogelir bywyd cymunedol.

b) Dylid rhoi blaenoriaeth i gynnal bywyd cymdeithasol lleol wrth lunio polisïau ar gyfer fframwaith materol bywyd. I gyflawni hyn, rhaid sydd wrth reolaeth gymdeithasol leol ar bob rhan o fywyd materol Cymru. Mae hyn yn golygu ymwrthod â chyfalafiaeth, boed ar ffurf cwmnïau neu wladwriaethau (Ffransis, 1986).

Mae modd egluro'r berthynas rhwng gweithredu a datblygiad syniadaeth cymdeithasiaeth trwy edrych ar un enghraifft, sef hanes ymgyrchu ym maes tai. Ataliwyd arwerthiant mawr o dai haf yng Nghaernarfon ym 1972 gan arwain y Gymdeithas i ystyried o ddifrif y berthynas rhwng y farchnad dai, hawl person i gartref, ynghyd â pharhad cymunedau Cymraeg (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1972). Elfen hanfodol o gymdeithasiaeth a ddeilliodd o hyn oedd y gred y dylid ystyried tai fel asedau cymdeithasol; fel cartrefi yn hytrach na nwyddau marchnad. Mynegwyd angen felly i 'gymdeithasoli' tai. Arweiniodd hyn at ymgyrchu i atal datblygiadau a ystyrid yn niweidiol i'r gymuned leol, megis tai haf a stadau tai na fwriadwyd ar gyfer diwallu anghenion lleol. Rhoddwyd pwysau ar awdurdodau lleol i brynu tai addas i'w rhentu i bobl lleol, i wrthod caniatâd i gynlluniau a oedd yn anghydnaws â'r angen lleol, ac i sicrhau bod rhaid wrth ganiatâd i droi annedd yn dŷ gwyliau. O'r 1980au ymlaen, daeth hyn oll yn rhan o'r ymgyrch am Ddeddf Eiddo i Gymru. Yr hyn a welir yn yr enghraifft hon yw'r datblygiad yn syniadaeth cymdeithasiaeth, a hynny o ganlyniad i wynebu realiti'r sefyllfa yng Nghymru ac o weithredu i'w newid. Gellir olrhain datblygiad cyffelyb yn hanes ymgyrchoedd cynllunio, y drefn lywodraethol, addysg, darlledu a'r economi. Ym maes yr economi, gwelwyd CYIG yn cefnogi ymgyrchoedd eraill yn gynyddol dros y blynyddoedd, e.e. y frwydr yn erbyn cau gwaith dur Shotton yn Sir y Fflint ym 1973.

Aeth Cymdeithas yr Iaith ati i gefnogi streic chwarelwyr Blaenau Ffestiniog, ac yna streic y glowyr ym 1984-5 pan ddatganwyd yn glir mai'r un pwerau oedd yn bygwth cymunedau glofaol ag oedd yn bygwth y Gymraeg (Phillips, 1998). Yn ystod streic y glowyr, bu ystod eang o grwpiau ac unigolion cefnogol yn weithgar ledled Cymru, gan gynnwys undebwyr llafur, aelodau o'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru, mudiadau heddwch ac amgylcheddol, amryfal ymgyrchwyr cymunedol, yn ogystal ag aelodau CYIG. Daeth y rhelyw o'r rhain ynghyd dan faner y gyngres a sefydlwyd i amddiffyn cymunedau glofaol. Ar ddiwedd y streic, collwyd cyfle euraid i ddatblygu'r Gyngres yn gyngres Gymreig o fudiadau gwahanol er mwyn amddiffyn bywyd cymunedol yn gyffredinol ar draws Cymru. Er bod llawer o gefnogaeth i'r amcan hwn, fe'i rhwystrwyd rhag digwydd, yn bennaf oherwydd bod arweinwyr y Blaid Lafur yng Nghymru yn gweld ymgyrchu cymunedol a gweithredu uniongyrchol yn fygythiad i'w strategaeth a'u huchelgais etholiadol.

I grynhoi'r hyn y mae CYIG yn ei ddweud, mae cymdeithasiaeth yn golygu newid trwyadl yn fframwaith cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol Cymru. Gellir ychwanegu'r fframwaith amgylcheddol am i'r Gymdeithas roi pwyslais cynyddol ar ryngberthynas amgylchedd, economi, cymdeithas, diwylliant a iaith (Phillips, 1998). Ni all y Gymraeg ffynnu fel iaith gymunedol oni newidia popeth arall yng Nghymru. Dyna'r ynni chwyldroadol ym mrwydr yr iaith.

**2. Y gymuned yn nhraddodiad gwleidyddol Cymru**

Er yr holl sôn am draddodiad cymunedol Cymru, ychydig o sylw – i bob pwrpas – a roddwyd i'r holl gysyniad o gymuned gan ryddfrydwyr Cymru yn ystod eu cyfnod euraid cyn 1914. I Hegeliaid brwd megis Syr Henry Jones, perthynas yr unigolyn â'r wladwriaeth oedd bwysicaf; doedd fawr o le i genedl na chymuned. Roedd rhyddfrydwyr eraill, llai ceidwadol, drwodd a thro yn dra theyrngar i senedd Prydain Fawr, y genedl-wladwriaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig.

Cydnabuwyd pwysigrwydd cymuned gan rai o'r sosialwyr cynnar yng Nghymru, arloeswyr cymdeithasol megis Robert Owen a R. J. Derfel. Creodd Owen gymunedau diwydiannol arbrofol ar sail egwyddorion sosialaidd, a phwysodd ar y Llywodraeth i fabwysiadu'r model cymunedol ar gyfer y gymdeithas gyfan. Bu'r model yn esiampl o'r hyn sy'n bosib ac yn symbyliad i fudiadau cydweithredol a chymunedau arbrofol hyd at y dydd heddiw. Yn gyffredinol, caiff Owen ei feirniadu am fod yn iwtopaidd. Yn ôl Derfel, roedd Owen yn ddiniwed yn ei 'obeithlonrwydd' ynglŷn â pharodrwydd y dosbarth llywodraethol i fabwysiadu trefn economaidd a chymdeithasol newydd (Roberts, 2009). Amharod fuasai'r pwerus i roi'r gorau o'i gwirfodd i'w cyfoeth, breintiau a'u grym. Yn ei dro, cafodd Derfel – a'r garfan o sosialwyr Ffabiaidd y perthynai iddynt – eu cyhuddo gan Farxwyr uniongred o fod yn ddiniwed ynglŷn â natur grym y dosbarth cyfalafol ac yn rhy obeithiol y gellid ymgyrraedd at gymdeithas sosialaidd yn bennaf drwy broses o addysgu'r dosbarth gweithiol.

Derfel, fe gredir, oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term 'cymdeithasiaeth', a'i fabwysiadu – yn hytrach na'r gair 'sosialaeth' – fel term cyffredinol i gyfateb yn fras i '*socialism*' yn Saesneg. Roedd ymysg y cyntaf i ddod â syniadau sosialaeth i gynulleidfa Gymraeg, ac yn ei gymdeithasiaeth â ati i addasu syniadau sosialaeth ar gyfer sefyllfa Cymru. Yn awr ac yn y man, defnyddia hefyd y term 'cymundebaeth', er enghraifft yng nghyd-destun syniadau ynghylch ymddygiad cydweithredol, megis cydfeddiant, cydlafur a chydfwynhad. Yn yr hunangofiant a ysgrifennodd ar ddiwedd ei oes, mae Derfel (Derfel, 1905) yn disgrifio'i gredo sosialaidd fel yr unig drefn gymdeithasol a all achub y bobl, yr unig obaith am gyfiawnder a heddwch. Fel aelod o'r Ffabiaid, rhoddai ei ffydd mewn addysgu'r gweithwyr ynglŷn â rhesymoliaeth yr achos sosialaidd, ac ymgyrraedd – trwy oleuo'r werin – at y nod o gymdeithas sosialaidd drwy ddulliau esblygol yn hytrach na thrwy chwyldro fel yr argymhellai Marxwyr y cyfnod. Er hynny, mae'n rhannu'r un amcanion sosialaidd sylfaenol â'r Marxwyr. Dywed y dylai'r tir a'i holl drysorau, y cyfoeth, ynghyd â'r cyfryngau cynhyrchu, dosbarthu a chyfnewid fod yn eiddo ar y cyd i'w defnyddio er lles pawb. Nid wêl unrhyw wrthdaro rhwng yr egwyddorion sosialaidd sylfaenol hyn a'i wladgarwch a'i genedlaetholdeb Cymreig. Mater yw yn y bôn o'i ffydd yng ngallu a photensial pobl gyffredin – ynghyd â chymunedau yng Nghymru ac ar draws y byd – i greu cymdeithas

well yn unol â gweledigaeth sosialaidd. Ar yr un pryd, rhydd ei gymdeithasiaeth stamp Cymreig ar sosialaeth.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn y cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd carfan gref ymhlith sosialwyr yng Nghymru yn gefnogol i hunanlywodraeth, a hynny fel rhan o'u gweledigaeth eang ynghylch cyfiawnder cymdeithasol, ymryddhad y gweithiwr a gwrthimperialaeth. Collwyd neu lastwreiddiwyd y weledigaeth drawsnewidiol hon i raddau helaeth yn dilyn y Rhyfel Mawr. Yr oedd yr elfennau syndicalaidd Cymreig o fewn y mudiad llafur Prydeinig yn y lleiafrif. Roedd y syndicalyddion o blaid rheolaeth ddemocrataidd gan weithwyr yn eu gweithleoedd ac yn erbyn canoli a biwrocratiaeth wladwriaethol, sef yr hyn a ddigwyddodd pan wladolwyd y diwydant glo ym 1948. Amlygir y traddodiad syndicalaidd hwn yn *The Miners' Next Step* (1912) a gyhoeddwyd gan lowyr de Cymru; dogfen a gysylltir yn aml â Noah Ablett, un o'r arweinyddion. Eironi aruthrol y diwydiant glo yng Nghymru yw bod y pwll dwfn olaf, Glofa'r Tŵr yng Nghwm Cynon, o dan berchnogaeth a rheolaeth ddemocrataidd y gweithwyr erbyn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif.

Yn gynyddol drwy'r 1920au, trywydd economistaidd a chanoledig 'sosialaeth' Brydeinig a ddilynwyd gan y mudiad llafur drwodd a thro. I drwch yr arweinyddion, nid oedd lle i gymuned na chenedl Gymreig yn syniadau cyfyng ac amrwd y Blaid Lafur ynglŷn ag undod rhwng minteioedd y gweithwyr. Hyrwyddwyd math o undod dosbarth gweithiol ar lefel Brydeinig, ond ni chwestiynwyd natur gyfalafol, imperialaidd, y genedl-wladwriaeth Brydeinig a rôl ideolegol Prydeindod. Effaith hyn oedd atgyfnerthu gafael cenedlaetholdeb Prydeinig ar y dosbarth gweithiol a thanseilio achos sosialaeth ryng-genedlaethol yng ngwledydd Prydain a thramor. Costiodd y methiant i wrthsefyll cenedlaetholdebau gwladwriaethol cyfalafwyr Ewrop yn ddrud i weithwyr a chymunedau ar draws Ewrop a gweddill y byd yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Wedi'r Ail Ryfel Byd, rhoddodd y Blaid Lafur sylw rhethregol i'r cymunedau a fu mor frwd eu cefnogaeth iddi. Er enghraifft, dywedodd Aneurin Bevan mewn datganiad:

> *There is no conflict between a wide cosmopolitanism and a rich local life. The one gives meaning and particularity to the other'* (Smith, 1984).

O ran ei gweithredoedd, serch hynny, bu polisïau lles tadol y Blaid Lafur a'r gwladoli biwrocrataidd a chanoledig yn gyfrifol, i raddau helaeth, am greu unigolion a chymunedau a oedd yn ddibynnol ar y wladwriaeth, yn hytrach nag unigolion rhydd. Parhaodd rhai lleisiau o fewn y Blaid Gomiwnyddol, ynghyd â rhai unigolion fel yr Aelod Seneddol Llafur dros Ferthyr Tudful, S. O. Davies, yn driw i'r weledigaeth o ryddid i gymuned a chenedl. Serch hynny, y genedl-wladwriaeth Brydeinig a sofraniaeth ei senedd a gafodd deyrngarwch y sefydliad llafur yng Nghymru drwodd a thro drwy gydol yr ugeinfed ganrif.

I'r Blaid Genedlaethol Gymreig yn ei chyfnod cynnar, roedd cymuned ynghyd â'r cysyniad o Gymru fel cymuned o gymunedau yn hollol sylfaenol. Ei phroblem oedd gwireddu'r theori. Nid tasg hawdd i'r 'blaid bach' oedd cyfleu ei neges i'r cyhoedd, ac nid oedd rhamantiaeth rhai o'r arweinyddion ynglŷn â'r 'glendid a fu' a'u hanallu i ddygymod â realiti diwydiannu yn helpu eu hachos.

**3. Cymuned a datblygu cymunedol yng ngwleidyddiaeth heddiw.**

Am gyfnodau yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf, bu sôn am gymuned bron yn rhan feunyddiol o rethreg San Steffan a gwleidyddion Cymru. Yn natganiadau'r holl bleidiau, mynegid yn aml y nod o gryfhau cymunedau Cymreig. Yn achos y Blaid Lafur, ymddengys ar brydiau i'w phrif ffocws symud oddi wrth ddosbarth cymdeithasol tuag at gymuned. Paratowyd polisïau a dogfennau, megis Datganiad Castell Nedd gan Peter Hain yn yr 1980au (Jones, 1995) a awgrymai bod gan o leiaf rai ffydd yng ngallu cymunedau i weithredu trostynt eu hunain, ac y dylai strategaethau llywodraeth – ar wahanol lefelau – anelu at rymuso cymunedau. Daeth y gair cymuned yn greiddiol i 'drydedd ffordd' Blair, mewn modd pur wahanol i 'gymdeithas fawr' Cameron.

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyhoeddwyd ystod o bolisïau a strategaethau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pwysleisio'r dimensiwn cymunedol. Amlinellir enghreifftiau allweddol o'r polisïau hyn a'u perthnasedd i ddatblygu cymunedol gan Datblygu Cymunedol Cymru (DCC), ac fe'u nodir isod (Datblygu Cymunedol Cymru, 2006) (Sylwer y ceidw DCC at eiriad cyhoeddiadau'r Llywodraeth):

**Dechrau Byw'n Wahanol**

Caiff holl strategaethau eraill y Cynulliad eu harwain gan y cynllun hwn.

Datblygu cymunedol yw'r broses lle bydd pobl lleol yn cyfranogi yn natblygiad a chynnal cymunedau cynaliadwy.

**Cymru: Gwlad Well**

Y cynllun strategol trosfwaol.

Mae gan ddatblygu cymunedol ran i'w chwarae i gynnal y weledigaeth o wlad decach, fwy ffyniannus, iachach ac wedi'i haddysgu'n well.

**Cymru: Economi yn Ffynnu**

Mae gan ddatblygu cymunedol botensial i wella ffyniant Cymru drwy weithgareddau cynaliadwy lleol.

**Gwell Iechyd-Gwell Cymru**

Bydd datblygu cymunedol yn ganolog i'r alwad hon ar i bobl a sefydliadau wella iechyd y genedl.

**Cynllun Gofodol Cymru**

Mae datblygu cymunedol yn cydnabod gwahaniaethau lleol ac yn datblygu atebion priodol i broblemau lleol. Mae datblygu cymunedol yn hyrwyddo ymwneud â chynllunio cymunedol.

**Strategaethau Cymunedol**

Mae angen mabwysiadu dulliau datblygu cymunedol i gynnwys pobl lleol wrth ddatblygu cynlluniau lleol.

**Cynllun Datblygu Gwledig Cymru**

Mae'r cynllun hwn yn dilyn patrwm rhaglen datblygu gwledig yr Undeb Ewropeaidd, '*LEADER*', sef datblygu o'r gwaelod i fyny.

**Iaith Pawb**

Ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol ynghlwm wrth ddatblygiad cymunedau.

Felly, mae'n amlwg bod datblygu cymunedol yn greiddiol i nifer o amryfal bolisïau'r Cynulliad, o leiaf yn gyffredinol ar bapur. Er bod cynifer o'r dogfennau polisi hyn yn dderbyniol o ran eu gweledigaeth gyffredinol, prin yw'r cynlluniau pendant sy'n golygu nad ydynt ar brydiau'n fawr mwy na chasgliad o obeithion. Er mwyn ceisio dirnad arwyddocâd ymarferol geiriau'r ddogfennaeth, edrychir yma ar un raglen benodol o'u plith, sef 'Cymunedau yn Gyntaf'. Mae'r enghraifft hon yn taflu goleuni ar nodweddion sy'n gyffredin i gynifer o bolisïau llywodraeth yng Nghymru sy'n ymwneud â datblygiad cymunedol. Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y rhaglen 'Cymunedau yn Gyntaf' fel cynllun datblygu cymunedol er mwyn ceisio gwella amodau byw a rhagolygon trigolion cymunedau tlotaf Cymru. Dynodwyd 142 o ardaloedd yn rhan o'r cynllun, wedi'u dethol yn bennaf ar sail Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru (mesur cyfansawdd o dlodi cymuned) yn y flwyddyn 2000. Cyflogwyd staff craidd ym mhob un o'r cymunedau, gan gynnwys gweithwyr datblygu cymunedol a fedrai ymgeisio am arian o amryfal ffynonellau ar gyfer cynnal prosiectau cymunedol. Sefydlwyd Cymunedau yn Gyntaf fel rhaglen adfywio hir dymor dan arweiniad y cymunedau, ac yn nyddiau cynharaf datblygu strategaeth y rhaglen yr oedd lle i obeithio y cawsai ei seilio ar egwyddorion datblygu cymunedol radical. Esbonnir yr egwyddorion a'r gwerthoedd hyn mewn dogfen, *Fframwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru*, a noddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac a luniwyd gan Datblygu Cymunedol Cymru (2006) ar sail ymgynghoriad eang gyda gweithwyr cymunedol a'r sector cymunedol ledled Cymru. Amlinellir y gwerthoedd a'r egwyddorion isod:

**Cyfiawnder cymdeithasol**

Adeiladu cymdeithas gyfartal a theg sy'n hyrwyddo hawliau dynol a hawliau'r gymuned, ac yn herio pob ffurf ar ormes.

**Ymreolaeth**

Grwpiau yn trafod problemau sy'n gyffredin rhyngddynt ac yn dod yn fwy ymwybodol o'r achosion ac atebion y gallant eu gweithredu.

**Cydweithio a chyd-ddysgu**

Gwerthfawrogi, rhannu a defnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad o fewn cymunedau er mwyn cyflawni newidiadau ar y cyd.

**Cymunedau cynaliadwy**

Cefnogi cymunedau i ddatblygu'u cryfderau, eu hadnoddau a'u hannibyniaeth tra cynhelir cysylltiadau gyda'r gymdeithas ehangach ar yr un pryd.

**Cyfranogiad**

Yr hawl i bawb gymryd rhan yn y prosesau sy'n effeithio ar eu cymunedau.

**Dysgu o brofiad**

Adfyfyrio ar brofiadau cymunedol a dysgu gweithredu i'r dyfodol.

Nodir hefyd yn y Fframwaith Strategol chwe nodwedd a ystyrir yn allweddol i ddatblygu cymunedol; arweiniad gan y gymuned, cynnwys pob rhan o'r gymuned, ymrymuso i newid cydbwysedd grym, cydnabod datblygu cymunedol fel proses barhaus, ynghyd â phroses ddysgu a phroses holistig. Mewn perthynas â'r broses holistig, mae datblygu cymunedol yn pwysleisio cydberthynas y gwahanol feysydd sy'n effeithio ar gymunedau, fel tai, gwaith, addysg, iechyd a thrafnidaeth; meysydd nad yw'n synhwyrol – o bersbectif cymuned – i'w hystyried ar wahân. Mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd hyn yn werthfawr fel ffon fesur i gloriannu prosiectau a rhaglenni sy'n ymwneud â datblygiad cymunedau.

Mae'r holl sôn a fu dros y ddau ddegawd diwethaf – ar bapur, ar lafar ac yn ddigidol – am gymuned a datblygu cymunedol yn ymddangos yn glodwiw, ond beth, mewn gwirionedd, a olyga hyn i gyd i'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn enwedig? Er mwyn ceisio dechrau ateb y cwestiwn hwn, mae'n werth edrych ar y modd yr aed ati i gloriannu a beirniadu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Comisiynwyd sawl gwerthusiad o'r rhaglen gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2006 a Llywodraeth Cymru, 2011) a chafwyd adroddiadau gan nifer a fu'n ymwneud â'r rhaglen (Adamson, 2010) ynghyd â thrafodaethau helaeth ymhlith y rhai a fu'n gweithio ar y cynllun ar lawr gwlad. O safbwynt datblygu cymunedol, swm a sylwedd y barnu yw y cafwyd llwyddiannau pwysig, ond ni chadwyd at egwyddorion a gwerthoedd sylfaenol datblygu cymunedol. Ymhellach, yr oedd tuedd i reolaeth fiwrocrataidd llywodraeth ganol a lleol fygu cyfranogiad a mentergarwch, a chafwyd diffyg hyfforddiant priodol ym maes datblygu cymunedol a nemor ddim cyswllt rhwng datblygu cymunedol a datblygu rhanbarthol (Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw, 2011). Drwyddi draw, cymharol fach fu effeithiau'r cynllun, a chwtogwyd ar y rhaglen yn 2013 gan hepgor llawer o gymunedau o'r cynllun, yn enwedig gymunedau gwledig. Cefnwyd i raddau pellach ar egwyddorion datblygu cymunedol, ac ofnir bod y newidiadau diweddar yn canoli grym rheolaethol fwyfwy ac yn lleihau cyfranogiad a dylanwad cymunedol.

O edrych yn ôl ar raglen Cymunedau yn Gyntaf, cafwyd amrywiaeth sylweddol yn yr hyn a gyflawnwyd mewn gwahanol gymunedau. Er enghraifft, dyfarnwyd Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Blaenau Ffestiniog ymysg y goreuon, yn ôl arfarniad gweision sifil y rhaglen ym 2011 (Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw, 2011). Mae gan awdur yr erthygl hon brofiad personol o ymwneud â mentrau cymunedol ym Mro Ffestiniog, ac yn medru tystio i lwyddiannau cymharol sawl cynllun adfywio a menter gymunedol yn yr ardal, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf. Yn ddiweddar, cafwyd peth arwyddion o rywfaint o newid meddylfryd yn y gymuned wrth i rai pobl ailafael, i raddau, yn y traddodiad cymunedol o wneud pethau trostynt eu hunain. Er bod y rhain yn gamau pwysig ymlaen, bach yw swm a sylwedd y newidiadau o'u cymharu â maint y problemau strwythurol a'r anghenion sy'n wynebu ein cymunedau. Mae hyn yn fwyfwy gwir yn y cyd-destun presennol o grebachu economaidd a thoriadau mewn gwariant cyhoeddus. Mae'r ffaith bod poblogaeth Blaenau Ffestiniog wedi lleihau'n gyson, o tua 13,000 ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i lai na hanner hynny erbyn diwedd y ganrif, ac yn parhau i ddisgyn, yn tanlinellu'r realiti cymunedol.

Pwysleisia Shaw (Shaw, 2005) fod datblygu cymunedol nid yn unig yn weithgaredd broffesiynol, ond yn weithgaredd wleidyddol bob tro, ac yn ymwneud â pherthynas grym yn ei hanfod. Yn ôl Freire (Freire, 1974) y cwestiwn sylfaenol yw; a yw datblygu

cymunedol yn fodd i ddofi a rheoli, ynteu'n gyfrwng i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymryddhad? Dyna'r dilechdid sydd wrth wraidd datblygu cymunedol, ac y mae Craig (Craig, 1989) yn rhoi ei fys ar y dewis sy'n wynebu'r gweithwyr cymunedol. Dywed y gwthir gweithwyr cymunedol yn aml gan lywodraeth i gyfrannu at broses o reoli effeithiau newid economaidd. Dadleua nad tasg y gweithiwr cymunedol yw helpu pobl i ddygymod ag ansicrwydd eu bywydau, ond yn hytrach i roi llais i'w hanghenion a'u deisyfiadau uwchlaw sŵn giatiau'r ffatri'n cau a chwalfa cymunedau.

I Blaid Cymru, mae cymuned a'r syniad bras o sosialaeth ddatganoledig yn parhau'n allweddol, er bod yr ymdrech i ddatblygu syniadaeth 'sosialaeth gymunedol', a gysylltwyd yn bennaf â Dafydd Elis-Thomas mewn cyfnod mwy radical, wedi chwythu ei phlwc (dros dro o leiaf). Er hynny, ymddengys fod Leanne Wood (Wood, 2012) am atgyfodi'r syniadaeth hon yn y *Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd*.

Yn wahanol i Ddemocratiaid Rhyddfrydol trefol yn Lloegr, nid ymrôdd rhyddfrydwyr Cymreig yn yr ardaloedd gwledig i 'wleidyddiaeth gymunedol' ar ei newydd wedd, ond llwyddant i raddau i gynnal eu traddodiad lleol, cymunedol. Yn achos y gwyrddion, amryliw, daeth cymuned a gweithredu uniongyrchol yn ganolog i'w '*think globally, act locally*'.

Cafodd llyfr John Redwood, *The Global Marketplace: Capitalism and its Future* (Redwood, 1994), sylw yng Nghymru yn sgil ei sylwadau am ein gwlad a'n hiaith. Sylwer y neilltua bennod gyfan i '*the sense of community*'. Ei ddadl yw bod cymunedau llewyrchus yn hanfodol i les a hapusrwydd yr unigolyn, ac nad yw'r broses bresennol o drawswladoli cyfalaf yn fygythiad i sefydlogrwydd cymunedau na'u hamrywiaeth. Dywed, '*whilst there is some truth in the argument that global capitalism can absorb and exploit cultural and regional differences, it never overwhelmes them nor takes away the underlying strength of many of these passions in men's souls*'. Buasai sawl cymuned yn nhopiau Dyffryn Conwy, cymoedd glofaol y de ac yng nghoedwigoedd yr Amazon a chwalwyd oherwydd y modd y symudwyd cyfalaf yn anghytuno gyda hynny.

Noder bod y gair 'cymuned' bellach yn ffasiynol ymysg marchnatwyr polisïau masnachol a gwleidyddol. Mabwysiedir delwedd gymunedol gan gwmnïau preifat trawswladol, e.e. *First Hydro* yn Nyffryn Peris a'r *Hong Kong and Shanghai Banking Corporation* (HSBC) gyda'i fanc byd-eang lleol ('*the world's local bank*'). Onid delweddu cymunedol fel gwrthbwynt ideolegol i guddio realiti gwrthrychol canoli grym economaidd yw hyn?

Cyhoeddodd Ioan Bowen Rees lyfr yn dwyn y teitl, *Cymuned a Chenedl: Ysgrifau ar Ymreolaeth* (Rees, 1993), sy'n trafod perthynas cymuned a gwladwriaeth, anghyfartaledd incwm a chyfoeth, niwed amgylcheddol, canoli grym ac unffurfioli diwylliannol. I Rees, fel i CYIG, mae cymunedau'n fodd anhepgor o roi ystyr i fywydau unigolion, ond gwêl fod cymunedau ar draws y byd dan fygythiad yn sgil natur cyfalafiaeth drawswladol fodern. Dywed Rees mai'r dasg allweddol yn yr oes sydd ohoni yw creu theori ac ymarfer gwleidyddol a fydd yn sicrhau grym lleol a chenedlaethol, amrywiaeth cymunedol a chydweithio cydwladol. Mae hyn yn angenrheidiol i barhad cymunedau Cymreig a'r iaith Gymraeg. Yn ôl dehongliad Jones (Jones, 1995), mae Rees a CYIG yn ceisio synthesis o ddwy ffrwd wleidyddol hollbwysig yn nhraddodiad gwleidyddol Cymru fodern, sef sosialaeth a chenedlaetholdeb cymunedol. Mae hyn yn gydnaws â sylwadau Raymond

Williams yn *Resources of Hope: Culture. Democracy. Socialism* (Williams, 1989), sef '*a new theory of socialism must now centrally involve place*'. Nid lle unigol a olygir, ond hunaniaeth a theyrngarwch ar sawl lefel; y gymuned leol, genedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang.

Dywedodd Gwyn Alf Williams, yn sgil cyhoeddi Maniffesto CYIG ym 1982, bod cymdeithasiaeth yn perthyn yn agos i draddodiad syndicaliaeth y *Miners' Next Step* ac ysbryd '*libertarian socialism*' cyfandir Ewrop (Phillips, 1998). Gan ddatblygu syniadaeth anarchiaeth syndicalaidd Proudhon, cyflwyna Rees ddadl o blaid Ewrop cydffederal. Yn fras, golyga hyn ystyried Cymru'n gymuned o gymunedau rhydd, a hynny o fewn cymuned Ewropeaidd o genhedloedd rhydd, i gyd mewn byd cydffederal.

Mae Rees yn honni na roddir sofraniaeth ar bedestal o fewn y traddodiad gwleidyddol Cymreig. O ganlyniad, maentumir nad yw'r syniad o undod Ewropeaidd yn creu'r un broblem i'r Cymry ag a wna i lawer o dirgolion gweddill Prydain (Rees, 1993). Yn ogystal â hynny, oherwydd y fath agwedd hyblyg tuag at sofraniaeth, y mae grym datganoledig, cymunedol, yn rhan greiddiol o'r feddylfryd wleidyddol. Mae hyn, wrth gwrs, yn gydnaws â syniadau cyfoes yr Undeb Ewropeaidd ynglyn â datganoli (*subsidiarity*: yr egwyddor gyffredinol y dylai llywodraeth weithredu ar y lefel fwyaf lleol posibl).

**4. Cloriannu cymdeithasiaeth**

Cynigir pum sylw penodol ar gyfer cloriannu cymdeithasiaeth:

a) Yn adran flaenorol yr erthygl hon, dadleuwyd yr ymddengys cymuned a datblygu cymunedol yn gynyddol bwysig yng ngwleidyddiaeth Cymru. Gwelwyd hefyd bod egwyddorion a gwerthoedd sylfaenol datblygu cymunedol a chymdeithasiaeth yn gymharus. Ar yr olwg gyntaf, gallasai ymddangos bod Llywodraeth Cymru a CYIG yn siarad yr un iaith gymunedol; mater arall yw realiti'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau. Mewn gwirionedd, dirywio mae'r Gymraeg yn y cymunedau daearyddol a fu'n gadarnleoedd yr iaith, a dirywio hefyd y mae sylfeini economaidd a chymdeithasol cynifer o gymunedau ledled Cymru. Digwydd hyn er gwaethaf yr holl rethreg gymunedol a phapurau polisi o du llywodraeth ar lefel leol, Gymreig, Brydeinig ac Ewropeaidd. Dadleuwyd eisoes bod modd defnyddio datblygu cymunedol naill ai i ddofi a rheoli cymunedau ar y naill law, neu i gynyddu ymwybyddiaeth a gweithredu'n gymunedol ar y llall. Nodweddir y drefn yng Nghymru gan y defnydd cyntaf, a nodweddir datblygu cymunedol radical a chymdeithasiaeth CYIG gan yr ail ddefnydd.

b) Gellir dadlau bod realiti cyfalafiaeth fodern yn ein gyrru ar garlam i gyfeiriad hollol groes i ddelfrydau cymdeithasiaeth. Mae effeithiau globaleiddio ynghyd â chanoli grym cyfalaf a llywodraeth yn effeithio fwyfwy ar ein cymunedau. Ai breuddwyd yn perthyn i lyfrau Asterix (Goscimiy a Uderzo, 1976) yw grym cymunedol a chymdeithasiaeth?

c) Roedd Marxiaeth glasurol yn gweld syndicaliaeth ac anarchiaeth fel ffurfiau ar sosialaeth iwtopaidd, a gellir anelu beirniadaeth gyffelyb at gymdeithasiaeth o safbwynt Marxiaeth draddodiadol heddiw (Marx ac Engels, 1848).

ch) A oes modd creu synthesis rhwng Marxiaeth a chymdeithasiaeth? Mae'r traddodiad Marxaidd yn ystyried yr economi yn sylfaen cymdeithas tra bod pwyslais cymdeithasiaeth ar iaith, diwylliant, cymuned a chenedl. Felly, ar yr olwg gyntaf, ymddengys bod Marxiaeth

a chymdeithasiaeth yn bur anghymarus ond dadleuir yma bod rhywfaint o synthesis rhyngddynt yn bosibl. Yn y gorffennol, tueddodd rhai o ddilynwyr Marx i bwysleisio'r economi yn unig, ar draul unrhyw ystyriaeth i faterion fel cenedl a diwylliant. Nid yw hyn mor wir bellach; rhoddwyd lle i genedl a diwylliant yn y persbectif Marxaidd er mai'r sylfaen economaidd yw'r flaenoriaeth. Edrychir yma ar sut y daeth Marxiaeth i delerau â'r cwestiwn cenedlaethol, ac yna ar ddatblygiad persbectif Marxaidd ar ddiwylliant. Mae Löwy (Löwy, 1976) yn olrhain datblygiad syniadau Marxwyr cynnar mewn perthynas â'r 'cwestiwn cenedlaethol'. Dengys fod safbwynt damcaniaethol Lenin – yn wahanol i sawl un o'i ragflaenwyr a chyfoedion – yn glir a chadarnhaol. Gwahaniaethai rhwng y lefel economaidd a'r lefel wleidyddol. Deisyfai, fel mater o egwyddor ddemocrataidd, weld cenhedloedd a chanddynt hawl i hunanlywodraeth o fewn Undeb o Weriniaethau Sosialaidd Ewrop, ond eu bod yn rhoi'r gorau i ran o'u sofraniaeth yn sgil manteision cydrannu mewn undeb economaidd sosialaidd. Dilechdid twt Lenin oedd mai'r grym gwleidyddol i ymadael ag undeb economaidd yn unig fuasai'n sicrhau gwir ryddid i fod yn aelod o'r undeb ynghyd â'r dewis i barhau'n aelod.

Yn *Selections from the Prison Notebooks of Antonio Gramsci* (Hoare a Nowell Smith, 1976), esbonnir y modd yr ychwanegodd Gramsci wedd hollbwysig at y persbectif Marxaidd trwy gyfrwng ei bwyslais ar yr uwchstrwythur diwylliannol. Mae Gwyn Alf Williams (Williams, 1984) yn ei erthygl hynod, 'Marcsydd o Sardiniwr ac Argyfwng Cymru', yn cymhwyso syniadau Gramsci i sefyllfa Cymru. Roedd Gramsci, fel Lenin, yn gweld creu sosialaeth fel tasg Ewropeaidd, heb fodd o adeiladu sosialaeth mewn un wlad. Er hynny, er mwyn i fudiadau sosialaidd lwyddo, roedd yn rhaid iddynt fod yn wlatgar a chenedlaetholgar. Yn ôl Gramsci, nid Plaid Gomiwnyddol yr Eidal oedd ei hangen ond Plaid Gomiwnyddol Eidalaidd yn creu neu'n ail-greu cenedl ar ei newydd wedd, yng nghyd-destun cymuned o gymunedau. Dadleuai dros greu hegemoni diwylliannol newydd a chyfuno gwahanol rymoedd cymdeithasol fel modd o drawsnewid cymdeithas a chreu trefn sosialaidd (Joll, 1977). Rhagwelai'r trawsnewid fel proses ddiwylliannol ymdreiddgar, gyda digwyddiadau chwyldroadol trawiadol yn atalnodau yn y broses. Dadleuir bod y persbectif hwn, neu addasiad ohono, yn cynnig ffordd ymlaen yng Nghymru heddiw. Y weledigaeth ar gyfer Cymru yw Ewrop o weriniaethau sosialaidd a fuasai, i raddau helaeth, yn gyd-ddibynnol yn economaidd ond yn undeb o genhedloedd gwleidyddol sofran. I gyrraedd y nod, mae angen creu hegemonïau cenedlaethol a chyfuniad o wahanol rymoedd cymdeithasol o blaid trawsnewid gwleidyddol. Deuir, gyda hynny, rywfaint o'r ffordd tuag at gymdeithasiaeth.

Sut, mewn termau ymarferol, y gellid cyfuno grymoedd cymdeithasol gwahanol er mwyn creu carfan gref i gydweithio dros newid sylfaenol yng Nghymru heddiw? Un allwedd i'r dasg yw deall a meithrin yr amryfal hunaniaethau Cymreig a chreu hegemoni'n seiliedig ar hunaniaeth Gymreig amlhaenog a chynhwysol. Gyda hynny, cyfyd y cwestiwn; yn lle y gellir gosod hunaniaethau Cymraeg yn y patrwm hwn? Ar hyn o bryd, nid oes modd i'r hunaniaethau Cymraeg ddatblygu'n rym hegemonaidd ar eu pennau'u hunain, ond hwyrach y gallasai hunaniaeth Gymreig amlweddog ac amlhaenog ddatblygu'n rym hegemonaidd. O ystyried cymuned heddiw mewn modd hyblyg a chreadigol, gellir ystyried cymunedau fel cyfrwng mynegiant hunaniaethau. Yn ôl ffordd Gramsci o feddwl, mae'n fater o drosi ac aildrosi'r syniad o gymuned a chenedl, a dyna a wna Gwyn Alf Williams a Raymond Williams yn achos hanes a sefyllfa gyfoes Cymru. Gwêl Raymond

Williams (gweler yn Williams, 2003) yr angen am theori sosialaidd newydd gyda lle, mewn perthynas â hunaniaeth a theyrngarwch, yn greiddiol i'r theori. Hunaniaeth ar sawl lefel fyddai hon; y gymuned leol, genedlaethol, Ewropeaidd. Wrth i gyfalaf ymadael, daw pwysigrwydd lle yn amlycach. Yn y persbectif diwylliannol hwn, edrychir am seiliau ar gyfer cysylltiadau newydd y gellir eu meithrin er mwyn adeiladu cymunedau 'newydd'. Yn ôl persbectif Gramsci, cymunedau wedi'u hailadeiladu ar seiliau cadarn y gorffennol fyddai'r rhain, a hynny ar ffurf newydd. Mewn cyd-destun gwleidyddol, mae'r chwilio am y cysylltiadau hyn yn golygu ail-lunio'r Chwith ar ffurf cynghrair o rymoedd sosialaidd, gwyrdd, a chenedlaetholgar radical. Buasai'r fath fudiad yn cyfuno'r diwylliannol a'r gwleidyddol mewn ymdrech i greu persbectifau a ffurfiau newydd. Eto, dychwelir gyda hyn at hanfodion cymdeithasiaeth.

Cymharol fach oedd y sylw cyhoeddus a gafodd cymdeithasiaeth, a phrin yw'r ddealltwriaeth o gyfanrwydd a chyd-destun y syniadaeth hyd yn oed ymysg aelodau CYIG. Ymddengys na fu llwyddiant ymarferol chwaith; ni cheir cynghrair sefydlog o gymunedau a mudiadau radical yng Nghymru. Er y bu cydweithio am gyfnodau rhwng gwahanol garfannau radical, mynd a dod a wnaeth hynny o gynghreirio llac a fu rhwng CYIG a mudiadau eraill. Nid yw'r lled fethiant i ddatblygu ail ffrynt y Gymdeithas o reidrwydd yn tanseilio theori cymdeithasiaeth. Wedi'r cyfan, bu undod y Chwith yn broblem drwy gydol y cyfnod modern. Serch hynny, mae angen datblygu ac addasu theori yn ôl yr amgylchiadau a'r cyfleoedd sy'n codi. Gyda hynny mewn golwg, mae'n werth ailedrych ar gymdeithasiaeth yng nghyd-destun hunaniaethau yng Nghymru heddiw.

Wrth edrych ar ganlyniadau cyfrifiad 2011 a chanrannau siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd, dylem hefyd – cyn rhincian dannedd yn ormodol – ofyn cwestiynau sylfaenol ynglŷn â natur cymuned heddiw. Eir ati hefyd i graffu ar yr hyn a ddatgelir yn y cyfrifiad ynglŷn â'r hyn a ystyria trigolion Cymru yw eu hunaniaeth; faint sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymry, a sut y mae hyn yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol, rhywedd, oedran, cefndir ethnig a chymuned ddaearyddol yn ogystal â iaith? Rhyddheir canlyniadau'r cyfrifiad fesul setiau o ddata, ac mae'r wybodaeth sydd ar gael hyd yma'n cadarnhau cryfder hunaniaeth Gymreig. Mae'n dra arwyddocaol mai yn y lleiafrif y mae'r rhai a ystyria eu hunain yn Brydeinwyr yn gyntaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, ac Iwerddon o ran hynny (heblaw am y mwyafrif cymharol fach yng Ngogledd Iwerddon).

Beth yw'r casgliadau ynglŷn â'r cwestiwn o synthesis rhwng cymdeithasiaeth a Marxiaeth gyfoes? Tra bod Marxiaeth yn blaenoriaethu'r sylfaen economaidd, mae cymdeithasiaeth yn pwysleisio iaith, diwylliant, cymuned a chenedl. Dadleuir, serch hynny, nad yw'r ddau bersbectif, o reidrwydd, yn anghymharus. Er bod Marxiaeth wedi datblygu dadansoddiad o'r cwestiwn cenedlaethol a'r uwchadeiledd diwylliannol, ystyrir y sylfaen economaidd yn greiddiol i newidiadau mewn cymdeithas. I ba raddau y mae cymdeithasiaeth yn gweld yr economi fel sylfaen cymdeithas? Gwelwyd bod CYIG wedi ymwneud yn gynyddol â materion economaidd ac adlewyrchir hyn yn natblygiad cymdeithasiaeth. Mae CYIG yn ystyried ei hun yn aelod o'r gwersyll sosialaidd ond mae safbwynt cymdeithasiaeth ar drawsnewid yr economi yn amwys. Hanfod Marxiaeth yw bod rhaid wrth drawsnewid economaidd rhyngwladol ac y mae'r angen am gynghreirio cydwladol er mwyn cyrraedd y nod yn amlwg heddiw mewn byd o gwmniau trawswladol a chanoli cyfalaf a grym economaidd. Mae *The Great Transition* (*New Economics Foundation*, 2009), a

sawl dadansoddiad cyffelyb, yn dod i'r casgliad ein bod yn wynebu cyfres o broblemau cysylltiedig; gordreulio adnoddau'r blaned, niwed amgylcheddol, anghyfartaledd cynyddol, ansefydlogrwydd economaidd a chwalfa diwylliannau. Yr unig ffordd i oresgyn y problemau cyfundrefnol hyn yw drwy atebion integredig sydd yn mynd i'r afael â'r problemau yn eu crynswth ac yn rhyngwladol.

Dros hanner can mlynedd ar ôl sefydlu CYIG, gwyrodd ei syniadaeth yn gynyddol i'r cyfeiriad sosialaidd, a gwêl a disgrifia ei hun fel mudiad chwyldroadol. Erbyn heddiw mae'r cerdyn aelodaeth yn datgan bod CYIG yn gymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid. Ymddengys bod yma weledigaeth sy'n pontio'r lleol a'r byd-eang ac ymrwymiad i chwyldro rhyngwladol; ond cyfyd sawl cwestiwn. Yn gyntaf, pa fath o fyd y mae'r chwyldro yn amcanu at ei greu, ac yn ail, sut mae cyrraedd yno? Ateb cymdeithasiaeth, a'r Chwith yn gyffredinol, i'r cwestiwn cyntaf yw nad oes modd rhagweld yn union, na chwaith chynllunio cymdeithas newydd o flaen llaw. Yr ateb i'r ail gwestiwn yw cynghreirio rhwng mudiadau radical yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bu undod y Chwith, serch hynny, yn broblem erioed, ac ni lwyddwyd i greu cynghrair o fudiadau radical pwerus yng Nghymru nac yn rhyngwladol yn yr oes sydd ohoni.

Yn ôl Marxiaeth, y frwydr economaidd a gwleidyddol rhwng y dosbarth cyfalafol a'r dosbarth gweithiol yw cyfrwng newidiadau cymdeithasol a chwyldro sosialaidd. Er i Gramsci ychwanegu persbectif ehangach, mae'r frwydr rhwng y ddau dosbarth yn parhau'n hollol sylfaenol yn syniadaeth Gramsci a Marxiaeth heddiw. Nid oes yr un pwyslais ar frwydr dosbarth yng nghymdeithasiaeth CYIG. Ychwanegu syniadau ynglŷn â chymuned a diwylliant at y dadansoddiad dosbarth a wnaeth Gramsci. Yng nghymdeithasiaeth CYIG, ymddengys bod cymuned yn cymryd lle dosbarth cymdeithasol.

Mae grym undebol y gweithwyr yn eu gweithleoedd yn ganolog yn y persbectif Marxaidd, ond nid yw hyn yn amlwg yn athroniaeth CYIG. Mae cymdeithasiaeth yn pwysleisio datganoli a'r gymuned leol. Trwy gydol hanes mudiadau llafur a theori sosialaeth, cafwyd tensiwn rhwng tueddiadau canoli a datganoli. Mae Marxiaeth yn credu mewn canoli grym y gweithwyr er mwyn cyfateb i rym canoledig cyfalaf, ond cyfyd peryglon o ganoli grym. Un sialens fawr i sosialwyr heddiw yw datblygu ffyrdd o gynghreirio er mwyn creu grymoedd unedig a all herio grym canoledig cyfalaf trawswladol, ond gan lwyddo ar yr un pryd i gadw rheolaeth ddemocrataidd ddatganoledig ar y fath gynghrair ac ar unrhyw gymdeithas sosialaidd a grëir. Gallasai cymdeithasiaeth wneud cyfraniad gwerthfawr at y fath orchwyl.

d) Mae pryder awdur yr erthygl hon am y Gymraeg a Chymru yn siŵr o lywio ymdrechion i fod yn hollol wrthrychol, ond yr ydym oll yn oddrychol i ryw raddau wrth ystyried materion o'r fath. Ceir, yn brigo i'r wyneb yma, gwestiynau dyfnach ynglŷn â phrif lif diwylliannol y gorllewin; materion fel yr amheuon ynghylch y rhaniad rhwng gwrthrychedd a goddrychedd, rhwng theori a gweithredu, ynghyd â'r rhaniad llafur deallusol a nodwedda'r traddodiad academaidd sy'n gryfder ar y naill law ac yn wendid ar y llall. Yn y traddodiad Marxaidd, cyhuddir academyddion bwrgeisaidd o ganolbwyntio ar astudio manylion cymdeithas gan anwybyddu holl natur y drefn drwyddi draw, gan wasanaethu'r drefn gymdeithasol mewn modd ceidwadol o ganlyniad. Yn ei gerdd 'Adnabod', mae Waldo Williams (Williams, 1956) yn ein rhybuddio rhag y rhydwythiaeth (*reductionism*) hwn:

‘Rhag y rhemp sydd i law’r dadelfennwr

A gyll, rhwng ei fysedd, fyd.’

Yn groes i rydwythiaeth y diwylliant cyfalafol, gall cymdeithasiaeth gynnig ffordd o weld y byd yn grwn a gweithio i’w drawsnewid.

**Casgliad**

I gloi, cynigir ateb i brif gwestiwn yr erthygl; ‘beth yw rôl cymuned a pherthnasedd gwleidyddol cymdeithasiaeth heddiw?’ Ar sail y dadleuon a gyflwynwyd, cynigir isod dri chasgliad cyffredinol.

Yn gyntaf, dros y deugain mlynedd diwethaf, cynyddodd y sôn am gymuned a datblygu cymuned yng Nghymru. Ar adegau yn ystod yr ugeinfed ganrif, defnyddiwyd ideoleg cymuned a datblygu cymunedol mewn modd ceidwadol, ac ar adegau eraill bu’n rym radical. Nodweddir y drefn bresennol yng Nghymru gan ddefnydd ceidwadol tra bod cymdeithasiaeth yn perthyn i’r traddodiad radical o ddatblygu cymunedol.

Yn ail, mae holl gyfeiriad cyfalafiaeth gyfoes, globaleiddio a chanoli cyfalaf yn tueddu i danseilio grym cymunedau a photensial datblygu cymunedol. Mae cyflawni newidiadau gwleidyddol sylfaenol yn ddibynnol ar gynghreirio eang rhwng mudiadau cymunedol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac y mae hyn yn un o egwyddorion cymdeithasiaeth. Cydnabyddir mai ychydig o gynghreirio llwyddiannus a fu hyd yn hyn.

Yn drydydd, er bod CYIG yn gweld ei hun yn perthyn i’r gwersyll sosialaidd, mae cryn wahaniaeth rhwng priodweddau cymdeithasiaeth a thraddodiadau sosialaeth. Ar hyd yr ugeinfed ganrif, datblygodd sosialaeth agwedd fwy cadarnhaol tuag at ddiwylliant a’r cwestiwn cenedlaethol. Dadleuir nad yw cymdeithasiaeth a sosialaeth gyfoes yn anghymharus, ond bod gwahaniaethau pwysig rhyngddynt. Cred y ddau bod angen trawsnewidiad economaidd a chymdeithasol a bod rhaid wrth gynghreirio eang er mwyn cyrraedd y nod. Bu pwyslais sosialaeth ar y sylfaen economaidd, dosbarth cymdeithasol ac undod rhyngwladol y gweithwyr. Ar y llaw arall, mae cymdeithasiaeth yn blaenoriaethu iaith, diwylliant, cymuned a chenedl. Tros hanner can mlynedd wedi sefydlu CYIG, gwyrodd ei syniadaeth i’r cyfeiriad sosialaidd ac ystyria gymdeithasiaeth fel cyfraniad unigryw i gorff syniadaeth sosialaidd fyd-eang. Dengys Gwyn Alf Williams (Williams, 1984) bod Antonio Gramsci wedi cyfrannu at sosialaeth fyd-eang fel ag y gwnaeth gan mai Sardiniwr ydoedd, yn llwyr ymwybodol o werth ei iaith, ei hunaniaeth a’i ddiwylliant. Gall cymdeithasiaeth gynnig persbectif diwylliannol cyfannol i fyd sy’n drwm dan ddylanwad rhaniad llafur deallusol cyfundrefn gyfalafol.

**Llyfryddiaeth**


Adamson, D. (2010), 'Why Communities First is a vital lifeline for Wales', *Western Mail*, 12 Mawrth (Cardiff: Western Mail).

Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw (2011), 'Sylwadau gan staff ac aelodau Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw ar Ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf yng Ngwynedd', *Papur Trafod Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw* (Blaenau Ffestiniog: Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw).

Craig, G. (1989), 'Community work and the state', *Community Development Journal*, 24 (1), 1-19.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1972), *Maniffesto* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1982), *Maniffesto* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1992), *Maniffesto* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2002), *Maniffesto* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2009), *Y Tafod,* Awst (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2004), *Cymru 2020* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1970-2013), *Tafod y Ddraig* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1970-2013), *Y Tafod* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Datblygu Cymunedol Cymru (2006), *Fframwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru* (Y Drenewydd: Datblygu Cymunedol Cymru).

Derfel, R. J. (1905), 'A brief account of my life', *Llais Llafur*, 5 Awst-12 Rhagfyr.

Ffransis, Ff. (1986), *Cymdeithasiaeth: yr ail ffrynt* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Friere, P. (1974), *Education for Critical Consciousness* (London: Continuum).

Goscimiy, R., a Uderzo, A. (1976), *Asterix y Galiad* (cyfieithiad Alun Ceri Jones) (Yr Eglwys Newydd: Gwasg y Dref Wen).

Hoare, Q., a Nowell Smith, G. (1971), *Selections from the Prison Notebooks of Antonio Gramsci* (London: Laurence and Wishart).

Joll, J. (1977), *Gramsci* (Glasgow: Fontana/Collins).

Jones, R. W. (1995), 'Beth yw Cymuned?', *Barn*, 387, 4-5.

Jones, R. W. (1995), 'Care of the Community', *Planet: The Welsh Internationalist*, 109, Chwefror/Mawrth, 16-25.

Jones, R. W. (2007), *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Llywodraeth Cymru (2006), *Gwerthusiad interim Cymunedau yn Gyntaf* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Llywodraeth Cymru (2011), *Cymunedau yn Gyntaf: Y Dyfodol* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Löwy, M. (1976), 'Marxism and the National Question', *New Left Review*, 96, 136-60.

Marx, K. ac Engels, F. (1848) (Cyfieithiad 2008), *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol* (Caerdydd: Y Blaid Gomiwnyddol Gymreig).

New Economics Foundation (2009), *The Great Transition* (London: New Economics Foundation). Gweler: http://www.neweconomics.org/publications/entry/the-great-transition (Cyrchwyd: 20 Mai 2010).

Phillips, D. (1998), *Trwy Ddulliau Chwyldro…? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1962-1992* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Redwood, J. (1994), *The Global Marketplace: Capitalism and its Future* (London: Harper Collins).

Rees, I. B. (1993), *Cymuned a Chenedl: Ysgrifau ar Ymreolaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Roberts, A. M. (2009), 'R. J. Derfel, 1824-1905', *Y Traethodydd*, CLXV, Ionawr, 34-54.

Rhaglen 'Cymunedau yn Gyntaf' Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.communitiesfirst.info (Cyrchwyd: 18 Ebrill 2011).

Shaw, M. (2005), 'Political, professional, powerful: understanding community development', Community Development Exchange Conference Transcript.

Smith, D. (1984), *Wales! Wales?* (London: George Allen and Unwin).

Unofficial Reform Committee South Wales Miners' Federation (1912), *The Miners' Next Step* (South Wales: Unofficial Reform Committee South Wales Miners' Federation).

Williams, D. (gol.) (2003), *Who Speaks for Wales?: Nation, Culture, Identity* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, G. A. (1975), *Proletarian order: Antonio Gramsci, factory councils and the origins of Italian Communism, 1911-1921* (London: Pluto Press).

Williams, G. A. (1984), 'Marcsydd o Sardiniwr ac Argyfwng Cymru', *Efrydiau Athronyddol 1984,* XLVII, 17-27.

Williams, G. A. (1985), *When Was Wales?: A History of the Welsh* (London: Penguin Books).

Williams, R. (1976), *Keywords* (London: Collins).

Williams, R. (1989), *Resources of Hope: Culture. Democracy. Socialism* (London: Verso).

Williams, W. (1956), *Dail Pren* (Llandysul: Gomer).

Wood, L. (2012), *Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd* (Caerdydd: Uned Datblygu Polisi Plaid Cymru).

# Cyfranwyr

### *Rowan O'Neill*

Artist ac ysgrifenwraig o Felinwynt yng Ngheredigion yw Rowan O'Neill. Mae ei hymarfer ac ymchwil yn cynrychioli archwiliad parhaol o iaith, hunaniaeth, lle a pherthyn. Ysbrydoliaeth ei gwaith yw ei chefndir mewn astudiaethau crefyddol a'r gwahaniaeth rhwng y gymdeithas drefol Brydeinig gyfoes a'i magwraeth amaethyddol Gymreig. Yn 2013, cwblhaodd radd ddoethur ym Mhrifysgol Aberystwyth dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ei gwaith ymchwil ar archif yr artist Cliff McLucas.

### *Gerwyn Wiliams*

Athro Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor yw Gerwyn Wiliams. Trafododd y modd yr ymatebodd llenyddiaeth Gymraeg i ryfel modern yn *Tir Neb: Rhyddiaith Gymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf* (1996) a *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd* (2005). Cyrhaeddodd ei gasgliad diweddaraf o gerddi, *Rhwng Gwibdaith a Coldplay* (2011) Restr Fer Llyfr y Flwyddyn 2012. Y mae'n gweithio ar hyn o bryd ar y cofiant cyflawn cyntaf i Cynan.

### *Sel Williams*

Brodor o Ddyffryn Conwy yw Sel Williams, a fu ar wahanol adegau'n labrwr, gwyddonydd ymchwil, athro ysgol, darlithydd yn y Coleg Normal ac ym Mhrifysgol Bangor. Y mae ganddo gefndir addysgu ac ymchwilio ym maes Bioleg ac Economeg. Er iddo ymddeol, mae'n parhau i weithio'n rhan-amser fel tiwtor yn yr Uned Datblygu Cymunedol yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Bangor. Y mae ganddo brofiad ymarferol ym maes datblygu cymunedol, ac ar hyn o bryd mae'n weithgar gyda nifer o fentrau cymunedol, yn bennaf yn ei gynefin ym Mro Ffestiniog.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261

9 771741 426008

Gwerddon • Rhif 17 MAWRTH 2014